




ECO'r Wyddfa

Dilynwch ni ar facebook
www.ecorwyddfa.co.uk

Rhif: 483 Nadolig2019 Ionawr 2020

Pris:£1



Lansio albwm newydd Alffa

Mae'r band lleol sydd wedi ennill poblogrwydd rhyngwladol drwy gyfrwng Spotify wedi lansio albwm newydd yn gynharach y mis hwn. Yn Nhŷ Glyndwr yng Nghaernarfon y cynhaliwyd y noson, a hynny, yn ôl Dion Jones, lleisydd a gitarydd, "ar ffurf acoustic, er mwyn cael rhywbeth gwahanol". Roedd elw'r noson yn mynd tuag at Meddwl.org, gwefan lle gellir cael cefnogaeth, gwybodaeth am anhwylderau iechyd meddwl a gwybodaeth am gymorth. Yn ystod egwyl cafwyd sesiwn cwestiwn ac ateb gyda Sôn am Sîn. "Roedd hi'n noson grêt i lansio'r albwm," meddai Sion Land, y drymiwr.

'Rhyddid o'r Cysgodion Gwenwynig' yw enw'r albwm, ac mae'n cynnwys caneuon yn Gymraeg a Saesneg. Hyd yma, mae dros 5 miliwn o wrandawyr wedi dilyn eu cerddoriaeth ar Spotify.

Erbyn i'r rhifyn hwn eich cyrraedd bydd Alffa wedi perfformio yng Nghaerdydd a Llundain, gyda Lerpwl i ddilyn ddechrau'r flwyddyn.

Mae'r albwm ar gael ar Spotify, itunes ac ar wefan www.alffaband.com



E 'Dyfodol Eco'r Wyddfa'

Cynhaliwyd y cyfarfod uchod ar Nos Fercher, 27ain o Dachwedd yn y Sefydliad Coffa, Llanrug.

Mae'n braf cael adrodd i ddeunaw o gyfeillion ddod ynghyd ar y noson i drafod dyfodol Eco'r Wyddfa gyda swyddogion y papur. Cafwyd trafodaeth fuddiol a phositif iawn. Rhoddwyd cefnogaeth gadarn i'r Eco gan y cyfeillion, a braf oedd clywed eu gwerthfawrogiad o ansawdd y papur ac o waith caled y swyddogion yn y dasg o gynnal yr Eco. Trafodwyd nifer o syniadau diddorol i'w hystyried wrth symud ymlaen. Roedd yn galondid mawr i glywed bod pob un o'r cyfeillion yn awyddus i helpu, gan dynnu

ar eu gwahanol arbenigeddau a'u diddordebau.

Cytunwyd i drefnu cyfarfod arall ar nos Fercher, 15fed Ionawr, 2020 am 7 o'r gloch yn y Sefydliad Coffa, Llanrug er mwyn symud ymlaen efo'r gwaith o ffurfio tîm newydd a thrafod rhannu cyfrifoldebau. Estynnir croeso cynnes i gyfeillion eraill i ymuno â ni ar y noson.

Yn y cyfamser, trefnir i gylchlythyru rhestr o'r gwahanol swyddi a chyfrifoldebau, ynghyd ag amlinelliaid byr o natur pob un.

ISSN 2516-7235



9 772516 723001 >

*Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda
i holl ddarllenwyr a chefnogwyr yr "Eco".*

RHIF 483
Nadolig 2019-Ionawr 2020
Argraffwyd gan
Wasg Dwyfor
Penygroes 01286 881911
SWYDDOGION A GOHEBWYR

**Straeon ac erthyglau
ar e-bost i**
Dafydd Whiteside Thomas
Bron y Nant, Llanrug
01286 673515
ecorwyddfa@gmail.com

CADEIRYDD
Y PWYLLGOR GWAITH
Tony Elliott, Bwlch Cae Mawr,
Deiniolen LL55 3LU 07798552238
tonyelliott17@yahoo.com

GOLYGYDD CHWARAEON
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

GOLYGYDD YR IFANC
Marged Rhys
marged_3@hotmail.com

FFOTOGRAFFWR
Gwynnaf Hughes, Hafan,
Llanrug (672221)
glasgoed@hotmail.com

TREFNYDD HYSBYSEBION
Rhian Elin George, Sw'n yr Egan,
Brynrefail (01286) 872306
ebost hysbysebioneco@yahoo.co.uk

TREFNYDD ARIANNOL
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (01286 674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST
Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (01286 674839)

TREFNYDD BWNDELU
Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir,
Dinorwig (870292)

TREFNYDD DOSBARTHU
Hefin Jones, Pantmwyn, Llanrug.
01286 673838

GOHEBWYR PENTREFI

DEINIOLEN: Nia Gruffudd (872133)

BETHEL: Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl,
Bethel. (01248) 670115

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts,
Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Lowri Ceiriog,
4 Erw Wen.
lowriceiriog@hotmail.co.uk

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO:

DINORWIG: Marian Jones, Minallt,
7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

LLANBERIS: Eifion Roberts,
Sw'n-y-Gwynt (870740)

LLANRUG: Eryl Roberts, Peris,
56 Glanffynnon (675384)

NANT PERIS: Kate Pritchard (872331)
neu econantperis@hotmail.com

PENISARWAUN: Katie Williams, Ty'n
Waen, Penisa'r-waun Ffôn 01248 671 622
ecopenisarwaun@hotmail.co.uk

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,
Pantafon, Waunfawr (650570)

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO 2020

Rhifyn	Copi i law	Bwn delu	Ble
Chwefror	19eg Ionawr	31ain Ionawr	Llanrug
Mawrth	16eg Chwefror	28ain Chwefror	Llanrug

LLYTHYRAU



Diweddariad Bro360.

Mae Bro360 eisoes wedi helpu cymunedau Dyffryn Nantlle a Dyffryn Ogwen i greu eu gwefannau straeon lleol newydd, ac maent yn llawn cynnwys amlgyfrwng sydd wedi cael ei greu gan drigolion a mudiadau'r fro.

Mae'n amlwg, o siarad â thipyn o bobol dros y misoedd diwethaf, bod ardal Arfon yn rhannu ei hun yn naturiol yn 5 bro (y tri dyffryn, Caernarfon, a Bangor). Da ni newydd gynnal dwy 'sgwrs dros beint' – yng Nghaernarfon ac yn Nyffryn Peris – a'r penderfyniad yn eich plith oedd bod digon o fwrlwm a digwyddiadau yn y ddwy ardal er mwyn creu a chynnal dwy wefan fro brysus. Felly ymlaen â ni i'ch helpu i greu gwefan i Ddyffryn Peris ac ardal Wyddfa!

Mae na gyfle i wneud gwahaniaeth i'r gymuned leol yma, ac i roi llais i'ch cymuned chi ar y we. Ac ar ôl ein Sgwrs dros Beint gyda'r criw ifanc yn Glyntwrog rai wythnosau'n ôl, gallech greu gwefan unigryw ac arbennig gyda'r holl syniadau creadigol a gawsoch. Dwi'n siŵr fod digon o frwdfrydedd, unigolion gweithgar a syniadau yn ardal Dyffryn Peris er mwyn i'r wefan fod yn llwyddiant mawr.

Y CAM NESA I'CH GWEFAN CHI:

Rydym yn bwriadu cyfarfod gyda chi - criw Dyffryn Peris - unwaith eto yn y flwyddyn newydd, er mwyn eich helpu i symud gam yn nes at eni gwefan newydd yr ardal. Byddwn yn cyfarfod nos Lun, Ionawr 13, am 7:30pm yn Glyntwrog. Croeso i unrhyw un!

Cofion, Guto.

Annwyl Ddarllenwyr,

Fel Cymdeithas rydym wedi derbyn adroddiadau gan ein haelodau sydd yn gynhyrchwyr bwyd, yn nodi bod teimlad nad yw'r BBC yn cynrychioli nac yn adlewyrchu ein cymunedau amaethyddol, ac yn wir, bod adegau amlwg pan nad yw'r holl wir yn cael ei gyfleu.

Mae Cymdeithas yr Iaith yn cydnabod cyfraniad enfawr y gymuned amaethyddol i gynladwydd yr iaith Gymraeg ac i'n diwylliant. Mae'r Gymdeithas hefyd yn nodi pwysigrwydd prynu yn lleol a chynhyrchu yn lleol.

Mae'r Gymdeithas yn galw am ddatganoli darlledu i Gymru er mwyn gallu cael trafodaethau Cymreig, er mwyn gwella democratiaeth yng Nghymru a chredwn fod datganoli darlledu yn hanfodol os yw'r Gymraeg am fyw.

Galwn ar y gymuned amaethyddol i ymuno gyda ni yn yr ymgyrch hon gan ymatal rhag talu ffioedd trwydded teledu. Mae bron i 100 eisioes ar ein rhestr o bobl nad sydd yn talu. Tybed ydy hyn yn opsiwn i chi? Cysylltwch gyda ni am fwy o wybodaeth am yr ymgyrch - 01970 624501.

Yn gywir,
Robat Idris,

Cadeirydd Grŵp Cymunedau Cynaliadwy Cymdeithas yr Iaith
Cymdeithas yr Iaith Gymraeg
Ystafell 5, Y Cambria, Rhodfa'r Môr, Aberystwyth SY23 2AZ

RHODDION

**Ariennir yn rhannol gan
Lywodraeth Cymru**

£100: Er cof annwyl am fy rhieni, Joe a Katie Lewis, gynt o Tan-y-Garret Dinorwig, hefyd y plant, Eluned, Harri a Ralph. Hefyd, i gofio'n annwyl am fy ngwraig, Heulwen, Nadolig Llawn iawn i bawb. G. Lewis, 13 Stryd Ceunant, Llanberis.

£50: Megan Williams, Paradwys, Gaerwen, Ynys Môn.


£30: Er serchog gof am Alwyn Peris Williams, 12 Lôn Tŷ Du, Llanberis, gan Mam a'r teulu.

£20: Dienw EM; Er cof am mam, Mrs Elizabeth Williams, gynt o 14 Rhydfadog, Deiniolen gan Iona, Ken, Barry, Tracy a'r teulu; Er cof am Wendy Jones, 20 Tal y bont, Llanrug.

£10: Rhian Hughes, Erddig, Bethel; Margaret, 5 Bro Eglwys, Bethel; Elizabeth Evans, Pen Parc, Bethel; Iris Rowlands, Glan'rafon, Cwm y Glo.

WAVELL'S
Bryn Ac Angela Williams
London House
LLANRUG
PEN
CIGYDDION
Y FRO
YR WYN LLEOL MWYAF BLASUS
SELSIG CARTRE
CIGOEDD PAROD I'W BWYTA
ARCHEBION AR GYFER Y RHEWGIST
MYNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!!
(01286) 673574

Gwybodaeth Nadoligaidd. Faint wyddoch chi?



1. Pwy oedd John Calcott Horsley, a beth wnaeth yn 1843?

2. Beth yw'r cysylltiad rhwng blaidd a'r carw trwyn coch?

3. Pa liw oedd gwisg Sion Corn yn wreiddiol?



4. Rhoes Capten William Mynors yr enw hwn arni yn 1643. Mae bellach yn diriogaeth i Awstralia. Beth yw'r enw?

5. Sawl ynys sydd wedi eu henwi ar ôl math o bwddin Nadolig? Ble maent?

6. Beth wnaeth Tom Smith yn Llundain yn 1847?

7. Pa garol a bennwyd yn "drefnadaeth ddiwylliannol" gan UNESCO yn 2011?

8. Pa gymeriad Nadoligaidd yn dyddio o 1939 gafodd ei ddefnyddio ar stampiau post Unol Daleithiau America yn 2014?

9. Pa garol enwog a gyfansoddwyd gan Eos Iâl?

10. Beth yw ystyr 'plygain'?

Fe gewch yr atebion ar dudalen 26.

Oes gennych chi raff ar gyfer eich penmaenmawr?



Gormod o alcohol – a phenmaenmawr y bore wedyn? Gofalwch fod rhaff ar gael, jest rhag ofn. Pam felly? Oherwydd o ddefnyddio rhaffau i arbed meddwon rhag mygu yn eu chwd eu hunain y daw'r term Saesneg 'hangover'.

Mae'n ymddangos mai aelodau o Fyddin yr Iachawdwriaeth oedd yn defnyddio'r dull hwn i achub bywydau meddwon. Mae'r llun yn dangos sut y cai'r rhaffau eu defnyddio yn ardal yr Hayes, Caerdydd, ond roedd ar ddefnydd mewn llefydd eraill hefyd. Tybed a oedd yn cael ei ddefnyddio yn yr ardal hon neu yn nhrefi Caernarfon neu Fangor?

Os oedd meddwon mewn cyflwr rhy ddrwg i gyrraedd gartref, roedd perygl iddynt orwedd ar y stryd a mygu, felly fe'i rhoid i hongian dros raffau nes byddent yn sobri digon i gerdded !

Yn ystod y mis aeth heibio

- Etholiad Dramor. Ddiwedd Tachwedd roedd disgwyl i tua 200,000 o drigolion Bougainville yn y Môr Tawel bleidleiso o blaid neu yn erbyn annibyniaeth i'r ynysydd sydd ar hyn o bryd yn rhan o Papua Guinea Newydd. Roedd disgwyl i'r bleidlais gymryd tua pythefnos oherwydd fod yn rhaid i ran helaeth o'r boblogaeth deithio ar gychod er mwyn bwrw eu pleidlais. Mae'r canlyniad yn cael ei gyhoeddi rhwng canol a diwedd mis Rhagfyr. Mae'n debygol y bydd yr ynyswyr yn pleidleisio o blaid torri'n rhydd oddi wrth Papua Guinea Newydd a ffurfio un o wledydd lleiaf y byd – o ran arwynebedd ac o ran poblogaeth.

- Y Pab, mewn cynhadledd i arweinwyr gwahanol grefyddau'r byd yn apelio ar i ieuentid werthfawrogi a gwarchod eu diwylliant. Mae difodiant diwylliannol, meddai, yr un mor ddifrifol a'r hyn sy'n achosi lleihad sylweddol yn nifer anifeiliaid a phlanhigion led-led y byd, ond sy'n cael mwy o sylw o lawer na difodiant diwylliannol.

- Senedd Cymru yn penderfynu y bydd ieuentid dros 16 oed yn cael pleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad. Tybed pa blaid fydd yn apelio i'r to ifanc newydd?

- Cŵn deallus. Gwaith ymchwil ym Mhrifysgol Sussex yn datgan fod cŵn yn adnabod geiriau, nid yn unig gan eu perchnogion, ond gan ddieithriaid hollol, ac nad yw goslef y llais yn amharu dim ar eu hadnabyddiaeth o'r geiriau hynny. Ni chafwyd eglurhad am bwrpas yr ymchwil.

- Amddifadedd. Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru yn cael ei gyhoeddi ddiwedd mis Tachwedd. Mae'n cymryd tua pedair blynedd i gasglu a dadansoddi'r holl wybodaeth a ddangosir ynddo, a'r canlyniadau yn cael 'sgôr'. Y meysydd perthnasol, yn ôl pwysigrwydd yw Incwm, Cyflogaeth, Iechyd, Addysg, Mynediad i Wasanaethau, Tai, Diogelwch Cymunedol ac Amgylchedd Ffisegol. Yn ddibynnol ar y 'sgôr' yn y categorïau hyn, roedd pob cymuned yn cael ei graddio rhwng 1 a 1909. Po isaf y sgôr, mwyaf yr amddifadedd. Roedd sgôr uchel yn golygu fod cymuned yn dioddef llawer llai o amddifadedd. A Llanrug ddaeth yn ail gymuned â lleiaf o amddifadedd ynddi yng Ngwynedd, gyda sgôr o 1634, yn cael ei dilyn gan Bethel a Chwm y Glo ar sgôr o 1606.

- Etholiad Gartref. Pum taflen etholiadol ddaeth drwy'r drws: un gan y Ceidwadwyr, dwy gan Lafur, un gan Blaid Cymru ac un gan Blaid Brexit, uniaith Saesneg. Roedd pob un (ar wahan i Blaid Brexit) yn annog etholwyr i ddewis aelod oedd yn fodlon gweithio'n lleol a chefnogi busnesau lleol. Roedd taflen y Ceidwadwyr wedi ei hargraffu yng Nghaerdydd. Roedd un o daflenni Llafur wedi ei hargraffu yng Nghaerdydd, a'r llall yn Kettering, Lloegr. Roedd taflen Plaid Brexit wedi ei hargraffu yn Hampshire. Roedd taflen Plaid Cymru wedi ei hargraffu ym Mhenygroes. Roedd cyfeiriad yr ymgeisydd Ceidwadol yn Llundain, ond yn honni ei bod yn "Llais lleol cryf dros Arfon." O leiaf roedd yr ymgeiswyr Llafur a Phlaid Cymru yn byw o fewn yr etholaeth. Byddwn i gyd yn gwybod canlyniad yr etholiad erbyn i chwi dderbyn y copi hwn o'r "Eco", felly peidiwch meddwl ein bod yn ceisio dylanwadu ar eich barn mewn unrhyw fodd!



Eisteddfod Llanrug



Parhad LLANRUG



Eisteddfod Pentrefi Llanrug a Chwm y Glo 2019

Cynhaliwyd yr Eisteddfod nos Wener, Tachwedd 15fed, yn neuadd Ysgol Brynrefail. Y beirniaid eleni oedd Iwan Wyn Williams (Cerdd), Dr Teleri Mair Jones (Llefaru) ac Anna Wyn Jones (Dawnsio Disgo). Arweinyddion yr Eisteddfod oedd Haf Roberts a Bryn Jones, gyda Jane Parry, Ruth Rowlands a Gwenno Pritchard yn cyfeilio.

Canlyniadau Cystadlaethau Llwyfan, Llên, a Chelf a Chreffft CANU AC OFFERYNNOL Unawdau

Dosbarth Derbyn: 1af Ilid, 2il Cian, 3ydd Mared

Bl 1 + 2: 1af Mali, 2il Luca, 3ydd Lwsi

Bl 3 + 4: 1af Efan, 2il Lois, 3ydd Lili

Bl 5 + 6: 1af Owain 2il Tomos, 3ydd Non

Uwchradd: 1af Sara, 2il Beca, 3ydd Twm

Partion canu

Côr Dosbarth Meithrin: Côr Meithrin Ysgol Llanrug

Côr hyd at Fl 2: Côr Ysgol Gynradd Llanrug

Côr Bl3 - 6: Côr-neto, Ysgol Gynradd Llanrug

Côr Uwchradd / Agored: Côr Llanrug

Cân Ysgafn / Grŵp Pop Uwchradd: 1af Oes Rhaid i Mi Ofyn?, 2il Dim Ond Awr o Bractis!

Unawd Offerynnol - Cynradd: 1af Llio, 2il Beca, 3ydd Lliwen

Unawd Offerynnol - Uwchradd: Pres: 1af Twm

Llinynnol: 1af Rhodri

Chwyth: 1af Nanw, 2il Lea ac Alaw, 3ydd Amberleigh a Tanwen

DAWNSIO

Dawnsio Disgo: Cynradd: 1af Grŵp 3, 2il Grŵp 4, 3ydd Grŵp 1 + Grŵp 2

Dawnsio Gwerin: Cynradd:

Parti Sioned

LLEFARU

Dosbarth Derbyn: Seimon

Bl 1 + 2: 1af Gruff

Bl 3 + 4: 1af Efan, 2il Lili

Bl 5 + 6: 1af Tomos Morgan, 2il Sioned

Bl 7 - 9: 1af Sara, 2il Luned a Nel, 3ydd Twm

Parti Cynradd: 1af Ysbrydion, 2il Bîns, 3ydd Parti Ych-a-Pych

Parti Uwchradd: 1af Parti Cyntaf, Ail a Thrydydd

Sgets Uwchradd: 1af Sgets Newyddion, 2il Sgets Pwyllgor

Steddfod Llanrug

ENILLWYR TLYSAU

Cadair Lowri (unawd Bl1 + 2): Mali Povey

Tlws Bwlchgrwnnog + rhodd o £10 (perfformiad cerddorol cynradd): Owain Eifion Land

Tlws er cof am Eddie a Moreen Lennon + rhodd o £10 (perfformiad cerddorol uwchradd): Sara Owens

Cwpan W Park Jones + rhodd o £10 (cyflwyniad llefaru/llafar cynradd): Tomos Morgan

Rhodd o £10 gan Haf Roberts (cyflwyniad llefaru/llafar uwchradd): Sara Owens

Cwpan y Perfformiwr (perfformiad gorau mewn sgets): Ynyr Gwilym

CANLYNIADAU LLÊN

Y Gadair: Lois Angharad Roberts

2il Elaine Williams, 3ydd Nanw Llwyd

Tlws yr Ifanc (Bl 7 - 9): Nel Angharad Gwilym

2il Beca Parry, 3ydd Erin Wyn Gibbard

Tlws y Llenor Cynradd (Bl 3 - 6): Beca Bowness

Bl 5 + 6: 1af Beca Bowness, 2il Efa Sion Holdworth, 3ydd Beca Fflur Davies + Catrin Angharad Williams

Bl 3 + 4: 1af Beca Owen, 2il Eban Roberts, 3ydd Anna Fflur

Owen + Ilan Siôn Stokes

CELF A CHREFFT

ARLUNIO

Meithrin: Neb yn cystadlu

Dosbarth Derbyn: 1af Ilid Ena

Aaron, 2il Nyfain Gwyn

Bl 1: 1af Luca Pijeira, 2il Ynyr Morus Jones

Bl2: 1af Betsan Teifi Llwyd

Bl 3: 1af Efa Gwyn, 2il Lleucu Prys Jones

Bl 4: 1af Lois Elen Aaron, 2il Elaine Beech, 3ydd Gwern Gwilym

Bl 5: 1af Owain Eifion Land, 2il Elliw Prys Jones

Bl 6: 1af Sioned Hughes, 2il Sion Owain Williams, 3ydd Beca Fflur Davies + Dylan Hall

Bl 7 + 8: 1af Twm Owain Williams, 2il Alaw Hughes

Bl 9 + 10: 1af Erin Gibbard, 2il Erin Gibbard, 3ydd Catrin Beech

Bl 11, 12, 13: 1af Osian Land, 2il Osian Land, 3ydd Gwernan Brooks

TLWS EMMA BERNARD i'r arlunydd gorau: Erin Gibbard

TRI DIMENSIWN

Meithrin / Derbyn: 1af Ruby Hannah

Bl 1 + 2: Neb yn cystadlu

Bl 3 + 4: 1af Eban Roberts, 2il Lois Elen Aaron, 3ydd Elaine Beech

Bl 5 + 6: 1af Sioned Hughes

Uwchradd: 1a: Macsen Llwyd, 2il Catrin Beech, 3ydd Gwernan Brooks

TECSTILIAU

Adran Babanod: 1af Ynyr Jones

Adran Iau: 1af Sioned Hughes, 2il Elliw Prys Jones, 3ydd Anest Haf Hughes + Lleucu Prys Jones

Uwchradd: 1af Alaw Hughes, 2il Mared Enlli Evans

Agored: Janet Pritchard

COGINIO

Meithrin: Ella Mackinnon

Dosbarth Derbyn: 1af Cian Aaron + Nyfain Gwyn

Bl 1: 1af Ynyr Morus Jones + Iago Roberts

Bl2: 1af Betsan Teifi Llwyd

Bl 3: 1af Efa Gwyn, 2il Lleucu Prys Jones

Bl 4: 1af Gwern Gwilym, 2il Elaine Beech

Bl 5: 1af Elliw Prys Jones, 2il Owain Eifion Land, 3ydd Anest Haf Hughes

Bl 6: 1af Llio Elen Jones, 2il Sioned Hughes

Bl 7, 8 a 9: 1af Mared Enlli Evans, 2il Catrin Beech, 3ydd Lowri Non Parry

Bl 10, 11, 12, 13: Neb yn cystadlu

Agored (pryd figan): Alaw Angharad Hughes

Agored (Jam): 1af Gareth Jones, 2il Gwion Jones + Gareth Jones, 3ydd Rhian Evans

Agored (Diod melys): 1af Macsen Llwyd, 2il Esyllt Llwyd + Alaw Hughes, 3ydd Carys Williams

GOSOD BLODAU

Agored: 1af Janet Pritchard, 2il Sioned Hughes, 3ydd Anest Hughes + Alaw Hughes

FFOTOGRAFFIAETH

Cynradd: 1af Sioned Hughes, 2il Anest Hickey, 3ydd Anest Hughes + Elaine Beech

Uwchradd / Agored: 1af Esyllt Llwyd, 2il Gwernan Brooks, 3ydd Alaw Hughes

D Y L U N I A D

CYFRIFIADUROL

Adran Babanod: 1af Ilid Ena Aaron

Adran Iau: 1af Lois Elen Aaron, 2il Sioned Hughes, 3ydd Elliw Prys Jones

Uwchradd: 1af Catrin Beech, 2il Alaw Hughes

Nadolig llawen a Blwyddyn Newydd dda oddi wrth bawb yn

GAREJ GWALIA

CAEATHRO

Ffôn: 673096

Gwasanaeth Torri Lawr 24 awr M.O.T. * Trwsio Ceir

LONDIS

Ar agor 7 a.m. - 10 p.m. bob dydd. Bwyd, diodydd, papurau newydd, fideos, bara, llefrith, ayb

Gwesty Dolbadarn

Llanberis

Ffôn-(01286)-870277

Parhad LLANRUG

Diolch o Galon i bawb wnaeth gefnogi'r cyngerdd Adfent eleni yng Nghapel y Rhos. Cafwyd noson gwerth chweil yng nghwmni doniau lleol – disgyblion Ysgol Brynrefail, parti Merched y Wawr, côr Ysgol Gynradd Llanrug gyda'u hathrawes, Miss Alaw Tecwyn fel unawdydd. Cawsom ddarlleniadau grymus hefyd gan Erin Alaw, Nel Gwilym a Bethanne Williams. Roedd y cyfan yn nwylo medrus Arwel Jones, a Haf Thomas fel arfer yn ei helpu gyda'r gwobrau.

Braf yw cael cyhoeddi fod £650 wedi ei cael eu trosglwyddo i'r Banc Bwyd yng Nghaernarfon, lle roeddynt yn hynod falch o dderbyn yr arian. Dymuna teulu'r ddiweddar Mrs Wendy Jones, 20 Tal y bont, ddiolch yn fawr am bob arwydd o garedigrwydd a chydymdeimlad a brofasant yn dilyn eu profedigaeth o golli gwraig, mam a nain.

Profedigaeth Yn andros o sydyn yn Ysbyty Gwynedd yn 66 mlwydd oed, bu farw Wendy Jones, 20 Tal y Bont. Roedd wedi bod yn wael am gyfnod hir ond yn ddiweddar wedi mwynhau gwellhad ac yn gallu cael gwyliau braf hefo Dick, ei gŵr.

Anfonwn ein cofion diffuant at Dick, Anwen a Jimmy, Carwyn a Lynne a'r plant bach, Erin ac Awen. Colled enfawr i chi fel teulu ac i'w ffrindiau oll.

Cyfarchion y Nadolig Fe ddymunir Nadolig Dedwydd i chi i gyd a Blwyddyn Newydd Dda. Cofiw'n am y rhai sydd yn wael gartref mewn ysbytai a chartrefi Preswyl. Dymuniadau gorau i chwi oll.

Cyfarchion Nadolig Dymuna Megan Axon, Hafan Elan, Nadolig hapus i bawb o'i theulu a ffrindiau gan na fydd yn anfon cardiau Nadolig i eleni.

Merched y Wawr Nos Sul, Rhagfyr 1af, sef cychwyn yr Adfent, mwynhawyd gwledd o wasanaeth Adfent yng Nghapel y Rhos gyda chyfraniadau clodwiw gan boblifanc talentog y pentref a'r fro ynghyd â chadwyn o garolau swynol gan barti o aelodau Merched y Wawr dan arweinyddiaeth Mair Huws a Susan, y cyfeilydd. Dymuna aelodau'r gangen ddiolch o galon i Mair a Susan am gael y cyfle i gymryd rhan mewn gwasanaeth mor fendithiol gyda'r elw yn mynd tuag at Fanc Bwyd Caernarfon.

Ar Ragfyr 10fed bu'r gangen yn gwledda a dathlu'r Wyl yn 'Y Gwynedd', Llanberis. Anfonir ein cofion anwylaf at aelodau o'r gangen sy'n derbyn triniaethau ac eraill sy'n sâl oherwydd yr anwyd trwm sydd o gwmpas. Derbyniwyd llythyr gan Megan yn diolch am y dymuniadau da wedi iddi gael pen-glin newydd ac yn falch ei bod adref ac yn gwella'n dda. Dymuna Ann Lloyd ddiolch am y siocledi wedi iddi ddisgyn a thorri ei braich a diolch a chofion fil at Eirianwen.

Cynhelir Cinio'r Llywydd Cenedlaethol yng Ngwesty'r Quay, Deganwy ar Sadwrn, Ebrill 4ydd, am 12.30. Y cyntaf i ymateb gyda thâl gaiff le. Pris yw £21. Derbyniwyd cyfarchion y Nadolig gan Meirwen gan gofio gwir ystyr y Nadolig. Cynhelir Cwrs Crefft y Gogledd ar Sadwrn, Ionawr 18fed, o 10 y bore hyd 4 y pnawn yn Glasdir, Llanrwst.

Nos Fawrth, Ionawr 14eg, cawn noson yng nghwmni Duncan Brown gyda'i gasgliad o gardiau Post hen a newydd a straeon am gefn gwlad. Dymunir Nadolig Dedwydd i chi i gyd a Blwyddyn Newydd Dda yn 2020.



Eglwys St.Mihangel

Ar ddiwedd Rhagfyr y llynedd, daeth yn amlwg i ni fod yn rhaid cau adeilad canol oesol eglwys St.Mihangel, adeilad annwyl iawn i ni. Saif yr adeilad gryn bellter o bentref Llanrug a ddatblygodd yn bell a phellach i ffwrdd o'r Eglwys gan wneud teithio iddi yn anoddach. Ychydig iawn o draffig sydd yn pasio iddi.

Er hyn, nid yw cau'r adeilad yn golygu fod Eglwys St.Mihangel wedi ei chau. Yn hytrach, mae'r Eglwys yn cyfarfod ddwywaith y mis am 10.00 y bore, yn yr Institiwt, ar Ffordd yr Orsaf. Yn wir, mae'r Eglwys wedi profi tyfiant yn y nifer sydd yn mynychu.

Ar bob Sul cyntaf o'r mis, cynhelir gwasanaeth anffurfiol, math Cafe. Mae'r gwasanaeth hwn ar gyfer pob oedran, gyda gweithgaredd i'w rannu ar gyfer pawb.

Ar y trydydd Sul, mae gwasanaeth o'r Cymun Sanctaidd. Mae'r gwasanaethau yn ddwyieithog.

Mae croeso cynnes a phaned i unrhyw un a ddymuna ymuno a ni yn y gwasanaethau hyn.

Gwasanaethau Ionawr 2020

Sed- 10 y bore Caffi'r Llan, Cristingl
19ain. 10 y bore Cymun Sanctaidd.

Caffi'r Llan

Ar Sul cyntaf Rhagfyr yng Nghaffi'r Llan buom yn meddwl am deithiau: taith Mair a Joseff, taith y Bugelliaid a thaith y Doethion, y cyfan o bersbectif llygoden fach chwilfrydig yn y stabl lle ganwyd yr Iesu. Sefydlwyd hyn ar fideo, fideo a gynhyrchwyd gan Gymdeithas y Beiblau, ynghyd a llyfryn mewn Cymraeg a Saesneg. Cawsom bypedau bysedd, "llygod bach", fel y gallem ni ddweud y stori hefyd. Buom yn meddwl hefyd am ein teithiau personol ni tua'r Nadolig ac yn ein bywydau fel dilynwyr yr Iesu. Gwnaethom lusernau a chanhwyllau ar gyfer ein taith, ynghyd a danteithion i'n cynnal ar y ffordd.

Ar ddiwedd y gwasanaeth cafwyd panad a mins pei a bisgedi llygod.

Plaid Cymru

Enillwyr Clwb Cant Rhagfyr

1.. Selwyn Lloyd

2..Vera Williams

Cyfarchion Nadolig

Dymuna Megan Axon, Hafan Elan, Nadolig Hapus i bawb o'i theulu a ffrindiau gan na fydd yn anfon cardiau Nadolig eleni.

Diolch. Dymuna Megan, Ellen a Sian, a'r teulu ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn dilyn colli Hefin Goronwy.

Diolch am bob ymweliad, sgwrs ar y ffôn, y cardiau, y geiriau caredig a'r holl flodau. Derbyniwyd rhoddion hael er cof am Hefin, a bu'r cyfan yn gysur mawr.

Diolch. Dymuna Eirianwen Thomas, Bron y Nant, ddiolch o galon i deulu, cymdogion a ffrindiau am bob cefnogaeth a chyfeillgarwch yn ystod y flwyddyn a aeth heibio.

grid76
graphic design

North Wales
SIGNS
Gogledd Cymru

Uned Unit | A9 | Cibyn Ind Estate | northwalessigns.com
grid76.co.uk | 07766956673

Parhad LLANRUG

Canmoliaeth eto eleni i Siop Cigydd Wavells



Am yr ail flwyddyn yn olynol cafodd y siop ei henwebu fel un o'r tair siop cigydd deuluol orau yng Nghymru. Ar ddiwedd Tachwedd teithiodd y cyd-berchnogion, Bryn a Karl i Lundain ble roedd goreuon cigyddion Yr Alban a rhanbarthau Lloegr yn cymryd rhan. Ddaeth dim gwobr i'w rhan, ond roedd cael eu cydnabod fel un o brif siopau cigyddion y tair gwlad yn dipyn o anrhydedd – a hynny am yr ail waith yn olynol. Does ryfedd mai dyma'r siop a ddewiswyd gan Gwmni Da ar gyfer gwneud sosej arbennig i raglen coginio 'Bwyd Epic Chris' a ddarlledwyd ar S4C ddechrau Rhagfyr.



Hafan Elan

Cafwyd cinio Nadolig arbennig iawn yn Hafan Elan dydd Mawrth, 3ydd o Ragfyr. Darparwyd y bwyd gan gegin Ysgol Brynrefail. Mae'r Ganolfan ar ei newydd wedd mor hardd ac roedd wedi ei addurno ar gyfer y Nadolig.

Dymunir diolch i Staff Cegin Brynrefail am ofalu am ginio blasus bob dydd Mawrth. Mae'n werthfawr iawn, yn rhoi cyfle am bryd o fwyd poeth a chymdeithasu. Diolch arbennig i'r gwirfoddolwyr ffyddlon, maent yn cael eu gwerthfawrogi gan bawb.

Dymuniadau gorau am y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd.

CAEATHRO

Lowri Ceiriog, 4 Erw Wen.
lowriceiriog@hotmail.co.uk

Capel Gwasanaethau – Bydd Oedfa gyntaf y flwyddyn newydd yn cael ei chynnal ar y 5ed o Ionawr am 2:00pm dan arweiniad y Parchedig Marcus Wyn Robinson. Ar y 12fed o Ionawr bydd sesiwn arall o "Miri a Moli" gyda Susan Williams, i ddechrau am 2:30pm. Ar y 19eg o Ionawr bydd Gwasanaeth dan arweiniad y Bonheddwr Richard Jones.

Diolch Dymuna Nan (10 Erw Wen) ddiolch i'w holl ffrindiau a chymdogion am y caredigrwydd a ddangoswyd ar ddatllu ei phen-blwydd arbennig yn ddiweddar.

Canu Carolau Ar nos Lun y, 16eg o Ragfyr, bydd cyfle i bawb ymgynnull i ganu carolau o gwmpas y goeden Nadolig yng nghwmni Band Pres Llanrug – y noson i gychwyn am 7:00pm.

Cymdeithas Cae Chwarae Diolch yn fawr i griw y Gymdeithas Cae Chwarae am osod y goeden Nadolig hyfryd yng nghanol y pentref eto eleni. Oherwydd haelioni trigolion yn pentref drwy gyfrannu i'r tynfa misol, bydd plant y pentref yn cael profi hwyl yr Ŵyl eto eleni.

Tynfa Misol Bydd canlyniadau tynfa mis Rhagfyr yn cael eu cadarnhau yn y rhifyn nesaf.

Pob Lwc Dymuniadau gorau i Vernon a Kit (Llain Meddygon gynt) sydd bellach wedi ymgartrefu yng Nghaernarfon. Edrychwn ymlaen i groesawu teulu newydd i'r pentref.

Gan ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i holl drigolion y pentref a'r cyffiniau a diolch am eich cefnogaeth ar hyd y flwyddyn.



E. W. Pritchard

Trefnwyr Angladdau

CENTRAL GARAGE
LLANBERIS
FFON- (01286) 870202



Cynbig
GOFAL PLANT CYMRU
The CHILD CARE Offer for WALES

Addysg gynnar a gofal • Early education and care



30 awr yr wythnos o addysg gynnar a gofal plant wedi'u hariannu gan y Llywodraeth i rieni cyn i'w sy'n gweithio ac sydd a phlant tair a phedair oed, a hynny am hyd at 48 wythnos y flwyddyn.

30 hours a week of Government funded early education and childcare for eligible working parents of three and four year olds for up to 48 weeks of the year.

Ar gael yn • Available in
Gwynedd a Môn
01248 352436
gofalplant30awr@gwynedd.llyw.cymru

ODA - y Pwybwrdd y Cymdeithas Cymunedol a'r Cymdeithas Ffrydionol

LLANBERIS

Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt,
Ffôn: 870740

Dymuna Elizabeth Roberts, (Hughes gynt, Stryd Siarlot) gyfarchion y tymor a Blwyddyn Newydd Dda a chofion cynhesaf i'w theulu, ffrindiau a chydabod, gan na fydd yn anfon cardiau Nadolig.

Gwasanaethau Eglwys Sant Padarn Cynhelir Gŵyl Coeden Nadolig yn yr Eglwys tan y flwyddyn newydd. Bydd yr Eglwys ar agor bob dydd. Croeso i bawb alw i mewn i'w gweld.

Gwasanaethau

Dydd Sul, Rhagfyr 22 am 11 o'r gloch: Darlleniadau a Charolau Rhagfyr 24 am 2 o'r gloch: Gwasanaeth y crud. Croeso i'r plant a'u teuluoedd ddod wedi gwisgo fel unrhyw un o gymeriadau stori'r geni

Dydd Nadolig am 10 o'r gloch: Cymun Nadolig

Rhagfyr 29 am 10 o'r gloch: Cymun unedig i eglwysi Bro Eryri yn Eglwys Santes Helen Penisarwaun

Cyfraniadau 2019 Bydd Llyfrau Ariannol Capel Coch am 2019 yn cau ar Ragfyr 31ain. Mi fydd

unrhyw gyfraniad a dderbynnir wedi'r diwrnod hwnnw yn cael ei gynnwys yng nghyfrifon 2020. Diolch yn fawr iawn am eich cydweithrediad.

Cymdeithas Undebol Capel Coch Disgwylir sgwrs gan Cadi Iolen, o'r Amgueddfa Lechi, yn ein cyfarfod nesaf ar nos Fawrth, Ionawr 7fed, am 7 o'r gloch.

Dymuniadau Nadolig

Dymuna Eirian Mali ddiolch am yr holl garedigrwydd a chymwynasau a dderbyniodd yn ystod y flwyddyn. Gan na fydd yn anfon cardiau allan, dymuna Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w holl gyfeillion.

Diolchiadau Dymuna Ken, Karen, Alice a theulu'r ddiweddar Mair Jones, 19 Maes Padarn, ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a dderbyniwyd ganddynt yn dilyn marwolaeth gwraig, mam a nain annwyl ar Fedi'r 23ain.

Diolch i'r Parchedig John Pritchard am ei wasanaeth yn yr Eglwys a'r Fynwent. ac i'r ymgymerydd, E.W. Pritchard, am eu trefniadau trylwyr. Bydd y rhoddion a dderbyniwyd er cof am Mair yn mynd i'r Alder Hey Children's Charity.

Oherwydd yr amgylchiadau trist, ni fydd Ken yn anfon Cardiau allan y Nadolig hwn, ond dymuna ymestyn Cyfarchion y Tymor at ei ffrindiau oll, ac yn diolch i bawb am eu caredigrwydd.

Gwasanaethau Capel Coch

Rhagfyr 22ain am 10.30: Oedfa Nadolig y Plant

25ain am 10yb: Oedfa Gymun gyda'r Parch. John Pritchard

29ain am 10yb: Parch Charles Wyn Jones


Ionawr Sed am 10yb: Mr Richard Llewelyn Jones

12fed am 10yb a 5yh: Y Parch John Pritchard

19eg am 10yb: Mr John Roberts

26ain am 10.30: Oedfa Deulu

Chwefror 2ail am 10yb: Parch Gwynfor Williams



www.fframia.com

FFRAMIA
Parc Padarn Llanberis
(01286) 870922

Gwasanaeth FFRAMIO LLUNIAU

DEWIS EANG O LLUNIAU YN YR ORIEL AC AR Y WEFAN
William Selwyn, Rob Piercy, Keith Bowen, Keith Andrew a mwyr

y CYNLLUN CERDDED A DARGANFOD
the WALK AND DISCOVER PROJECT

**menter
fachwen**

RHIF ELUSEN / CHARITY NUMBER: 701163

www.menterfachwen.org.uk

**CYFENTER
CALENIG**

**menter
 Môn**



WYTHNOS CYCHWYN 6ed IONAWR

Sefydlwyd Cynllun Cerdded a Darganfod Menter Fachwen yn mis Mawrth 2013. Byddwn yn cyrraedd garreg filltir ar y daith cyntaf yn mis Ionawr, sef y 250fed taith i ni drefnu a thywys. I ddatlu hyn gofynwyd i'r sawl sydd ar y rhestr derbyn cylchlythyrau y Cynllun Cerdded a Darganfod i enwebu eu hoff taith. Bydd y bleidlais yn dod i ben dydd Gwener 3ydd Ionawr. Yna, byddwn yn trefnu'r daith y wythnos canlynol. I fod ar y rhestr derbyn y cylchlythyrau ac yna am fanylion y 250fed taith yna e-bostiwrch: garethroberts754@yahoo.co.uk

IAU 16 IONAWR 2020 2.00yp

BANGOR YN YR AIL RYFEL BYD (2 filltir)

CYCHWYN: MAES PARCIO Ffordd y Traeth, HIRael, BANGOR

HAWDD

WYTHNOS CYCHWYN 20 IONAWR

TAITH GERDDED CYFRES GWYLIO'R SÊR: RHIF 1

Bydd y teithiau yn y gyfres hon dros y misoedd nesaf yn cael eu trefnu munud olaf i gymeryd mantais o unrhyw dywydd da. Eto, trwy e-bost y byddaf yn hysbysebu'r teithiau yma, felly gwnewch yn sicr eich bod yn derbyn ein cylchlythyrau: garethroberts754@yahoo.co.uk

GWENER 31 IONAWR 2020 2.00yp

EGLWYS LLANDDEINIOLLEN: YMCHWIL NEWYDD (½ milltir)

CYCHWYN: MAES PARCIO TAFARN Y GORS BACH, LLANDDEINIOLLEN

HAWDD IAWN.

NADOLIG LLAWEN
A Blwyddyn Newydd DDA

I holl ddarllenwyr ECO'R WYDDFA
oddiwrth BAWB yn



Diolch am eich cefnogaeth yn ystod y flwyddyn
Ffôn-(01286) 872304

Gwasanaethau y Sul yn yr ardal Beth amser yn ôl fe fu imi ofyn ar ran Capel Cefn y Waun ac Ebeneser a oedd rhyw wasanaeth yn cael ei gynnal ar nos Sul yn wahanol i beth sy'n cymryd lle yn y ddau gapel. A fuasech mor garedig â rhoi cyhoeddiad mewn digon o amser i'w gyhoeddi yn y capel gan ein bod fel capeli yn gorfod cael cennad ymhell o flaen llaw. Yr wyf ar hyn o bryd yn trio llenwi blwyddyn 2022, gan fod nifer o weinidogion erbyn hyn wedi mynd yn fychan ac yn brin iawn a thrwy hynny yn anodd iawn i'w cael, a thrwy hyn fe welwch nad yw yn braf gorfod dweud wrthynt nad ydym eu hangen. Y tebygrwydd ydyw eu bod wedi gwrthod eglwysi eraill. Does dim byd gwaeth na gorfod ymddiheuro i Weinidog da am y gwagle yn y gynulleidfa. Yr wyf yn gobeithio yn arw na chaf fy hun yn y sefyllfa eto. Felly gofynnaf yn garedig iawn am gael cydweithrediad os cyfyd y sefyllfa eto, er mwyn cael un gwasanaeth os bydd angen. Mae mor braf gweld un adeilad yn llawn na dau yn hanner gwag.

Ar Ragfyr 22ain ni fu gwasanaeth gan y capel er mwyn cael mynd i'r Eglwys i'r cyngerdd.

Carwn ddiolch i chwi am eich cydweithrediad ymlaen llaw. Diolch yn fawr.

Marwolaeth Fel ag yr wyf yn ysgrifennu i'r Eco rwyf yn cael ar ddeall ein bod unwaith eto wedi colli un arall o blant yr ardal, sef Mr Thomas Elwyn Griffith oedd yn byw yn Bigil hefo'i dad a'i fam a'i frawd, John Huw, ond erbyn hyn y mae'r tri wedi ei ragflaenu.

Rwyf yn cofio Thomas Elwyn yn yr hen ysgol fach yma yn Ninorwig ond nid oes gennyf yr un syniad i ble yr aeth o'r ysgol. Nid wyg yn ei gofio yn ysgol Ramadeg Brynrefail. Yr wyf yn credu ei fod tua 84 mlwydd oed. Athrawes oedd ei fam a; i dad yn ddyn bychan yn gweithio iddo fo'i hun a John hefo fo wedyn ac yn ôl a ddeallaf yr oedd ei waith yn werth ei weld a John yn cario ymlaen hefo'r gwaith ar ôl colli ei dad. Yr oedd Thomas Elwyn yn hollol wahanol i'w frawd, Yn berson talach o lawer iawn. Bu iddo briodi a chartrefu yn un o bentrefi bach Eifionydd ond nid wyf yn credu imi ei weld unwaith ar ôl ysgol Dinorwig.

Cydymdeimlwn yn fawr hefo'r teulu yn eu profedigaeth a gobeithiaf yn bydd iddynt gael nerth yn yr oriau tywyll yma.

Gwaeledd Drwg gennym ddeall bod Mrs Betty Bower, Tan y Marian, wedi gorfod mynd i'r ysbyty ar ôl syrthio yn ei chartref a mynd oddi yno wedyn i gartref preswyl yng Nghaernarfon i gael gwella yn iawn. Da yw deall ei bod wedi cael dod yn ôl i'w chartref erbyn hyn ac yn brolio'r gofal a gafodd yn yr ysbyty a'r Cartref, ond fel y mae'n dweud, nid oes unlle yn debyg i gartref. Hyderaf y byddwch yn gwella ac yn gallu mwynhau y Nadolig. Dymunwn adferiad llwyr a buan i chwi.

Tymor y Nadolig Erbyn hyn yr ydym yn nhymor y gaeaf, dim ond gobeithio na chawn aeaf rhy galed. Wrth gwrs, erbyn hyn y mae pawb yn edrych ymlaen am y Nadolig ac mae'n debyg y bydd rhai, fel fi, yn falch o'i weld wedi pasio gan, erbyn hynny, y bydd y dydd yn dechrau ymestyn eto a rhywbeth i'w weld yn newid o wythnos i wythnos.

Dymunaf Nadolig Llawen i'm cydweithwyr yn yr Eco. Diolch am eu cwmni gan ein bod yn cael tipyn o hwyl, nid yw tynnu coes y chwarelwyr wedi mynd allan o'r tir, gan fod llawer o hyn yn cymryd lle pan yr ydym yn disgwyl am yr Eco. Coeliwch fi, y mae llawer o bethau yn cael eu trin amser


hynny. Nadolig Llawen i bawb ym mro'r Eco gan obeithio y cawn ei weld yn dal i gario ymlaen. Mae llawer un yn disgwyl amdano o fis i fis.

Wrth gwrs ein cofion at Mrs Megan Morris yn y Cartref, gobeithio y gall fwynhau ei hun er bod yr oed yn fawr, mae'n mynd ymlaen erbyn hyn am 105.

Ni fydd Eco eto tan ddiwedd Ionawr ac y mae yn debygol y bydd llawer o newid erbyn hynny, gan obeithio yn arw bod y rhai sydd yn cwyno yn cael gwell blwyddyn erbyn hynny ac y bydd y salwch sydd o gwmpas ar hyn o bryd yn rhan o hanes.

Carwn ddymuno Nadolig Llawen i bawb a Blwyddyn Newydd Well i'r sawl sydd wedi cael blwyddyn wael eleni. Dymunaf y gorau i bawb. Hwyl fawr dros y gwyliau.

Diolch. Dymuna Megan, Ellen a Sian, a'r teulu ddiolcham bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn dilyn colli Hefin Goronwy. Diolch am bob ymweliad, sgwrs ar y ffôn, y cardiau, y geiriau caredig a'r holl flodau. Derbyniwyd rhoddion hael er cof am Hefin, a bu'r cyfan yn gysur mawr.



GWAITH
COFFAOL
LLANRUG

Ffôn Gwaith
(01286) 672898

Cartref
(01286) 871833
Symudol 07778 127394

Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

Dylan Griffith
Trefnwr Angladdau Annibynnol a Lleol
TROS-Y-WAEN PENISARWAUN

Gwaith Cerrig Beddi
Gwasanaeth Teimladwy a Phersonol
24 Awr y Dydd
Capel Gorffwys Preifat
Yn Gwasanaethu Yr Holl Ardal

Ffoniwch ar 1286 871833 (SYMUDOL - 07778127394)



CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA
Cyrhaeddwch Mewn Steil- Mewn Cerbyd Rolls Royce
AR GYFER PRIODASAU, PENBLWYDDI ac ACHLYSURON ARBENNIG ERAILL



Tlodi

Mae banciau bwyd wedi bod ar gynydd dros y degawd diwethaf, ac adroddiadau dyddiol bron am dlodi affwysol yng nghymunedau led-led Prydain. Ond nid peth newydd yw tlodi: “Mae’r tlodion wastad gyda ni”. Sut felly roedd cymdeithas yn y gorffennol yn delio a thlodi o fewn eu cymunedau?

Cyn bod son am awdurdoadau lleol – yn gynghorau plwyf a chymunedol, a chynghorau sir; y plwyf eglwysig oedd a chyfrifoldeb am ddosbarthu cymorth, a’r festri blwyfol (rhagflaenydd y Cyngor Plwyf) oedd yn derbyn y cyfrifoldeb. Mae rhai o gofnodion y Festri Blwyfol wedi eu cadw’n ddiogel, ac yn taflu goleuni ar dlodi affwysol ymhlith rhai haenau o’r gymdeithas.

Mae gen i gopi o Lyfr Cyfrifon Plwyf Llanddeiniolen sy’n cofnodi’r blynyddoedd o 1834 hyd 1846. Ynddo, rhestrir yr holl daliadau a wnaethpwyd i drigolion y plwyf – i’r rhai oedrannus, y gwagedd gweddwon oedd a phlant i’w magu, y gwŷr gweddwon na allent weithio, i gynnal plant amddifad, i brynu esgidiau a dillad i rai anghenus ac i brynu hadau a thatws i unigolion eu plannu er mwyn cael bwyd. Rhestr sy’n gyrru ias i lawr cefn rhywun o’i darllen a sylweddoli pa mor eithafol o galed oedd bywyd yn y cyfnod i lawer o’r plwyfolion tlotaf.

Y gair sy’n ymddangos yn aml yn y cofnodion yw ‘sist’. Rhoi ‘sist’ i hwn a hwn, talu ‘sist’ i hon a hon; sef “assistance”, ac y mae’n amlwg fod gwir angen y cymhorthdal hwn ar rai o’r trigolion.

Mae rhai o’r taliadau yn cael eu rhoi i bobl o’r tu allan i’r plwyf. Mae Cathrine Morris (80 oed) yn byw yn ‘Gwrexham’, ac yn derbyn swllt a chwe cheiniog yr wythnos am 60 wythnos o Fawrth 1834. Yn yr un flwyddyn mae Catherine Pritchard (68 oed), ‘Liferpool’ yn derbyn yr un swm hyd Ionawr 8fed 1835. Does dim eglurhad am y gwahaniaeth amser. Ond pam roedd Festri Blwyfol Llanddeiniolen yn talu i ddwy wraig mor bell i

ffwrdd? Y rheol bryd hynny oedd fod pob plwyf yn gyfrifol am ei blwyfolion; hynny yw, y rhai a gafodd eu geni o fewn y plwyf. Felly, roedd y ddwy Catherine wedi eu geni yn Llanddeiniolen, ond wedi symud i ffwrdd i fyw. Doedd Wrecsam na Lerpwl yn fodlon talu i’w cynnal am mai cyfrifoldeb Llanddeiniolen oedd hynny!

Yn yr un modd roedd Festri Llanddeiniolen yn gwrthod talu i rai o’r bobl oedd yn byw o fewn y plwyf, a cheir cyfeiriadau yn y Llyfr Cyfrifon at daliadau dros rai o blwyfi Nefyn, Betws Garmon, Clynnog a phlwyfi eraill yn yr hen Sir Gaernarfon. Bu’r ddeddf hon yn destun ffraeo yn aml, ac yng nghasgliad y Parch Peter Bailey Williams, Rheithor Llanrug a Llanberis (yn Archifdy’r Brifysgol ym Mangor) mewn cyfnod ychydig yn gynharach, ceir gwybodaeth am pa mor rhwystredig oedd ceisio cael tâl gan rai plwyfi am eu tlodion. Mewn rhai achosion roeddent yn cael eu danfon yn ôl i’w plwyfi genedigol os oeddent ‘ar y plwyf’. Pwy tybed oedd Gutto bach a gafodd ei ddanfon yn ôl i Landdeiniolenanfon o blwyf Clynnog gan ‘overseers’ y plwyf hwnnw? Bu’n rhaid i Landdeiniolen dalu wyth geiniog iddynt am bryd o fwyd!

A’r plwyf hefyd oedd yn talu am gladdu nifer o’r anffodusion hyn a gafodd ‘sist’ am flynyddoedd. Ond roedd prisiau eu heirch yn amrywio. Costiodd arch Dafydd Jones, teiliwr, ddeunaw swllt yn Ebrill 1834, ond tri swllt yn unig a dalwyd am arch Elin Roberts, Ty Cerrig, dri mis yn ddiweddarach.

Erbyn 1837 roedd y plwyf yn talu naw swllt i Elizabeth Jones, Pant am ‘blancad a gwely peiswyn’, ond dim ond pedwar swllt a chwe cheiniog i Rowland William am ‘wely peiswyn a dicyn’. A does gen i ddim syniad beth oedd ‘dicyn’.

Y mis nesaf cawn enghreifftiau o daliadau nad oeddent yn cael eu gwneud i’r tlodion.

Capten llong – o Bontrug

Nid yn aml y bydd Pontrug yn cael sylw yn y golofn hon, ond cais sydd yma am unrhyw wybodaeth am y Capten Hugh Humphreys a fu’n byw yn Ty’n Lôn, Pontrug. Yn Y Dinesydd Cymreig fis Hydref 1915 ceir adroddiad am ei farwolaeth – a’i gladdu, yn Ninbych. Bu farw yno ar y cyntaf o’r mis. Ond daw’r newyddion hyn dan bennawd newyddion Pontrug. Roedd yn byw yn yr ardal erbyn 1911, ac yn cael ei gofnodi ar y Cyfrifiad fel “retired sea captain”, gŵr gweddwa aned yn Niwbwrch, Ynys Môn. Noda mai Cymraeg yw ei iaith, ac y mae wedi llenwi’r ffurflen yn Gymraeg. Eto’i gyd, rhywun o’r enw Owen W. Jones sy’n arwyddo y ffurflen, a nodir mai dim ond dwy ystafell oedd yn y tŷ.

Yn yr adroddiad am ei farwolaeth dywedir iddo fod yn Affrica, ac mai yno yn 1903 y bu ei wraig farw (ond ni roddir ei henw). Roedd

iddo ddau o feibion, John ac Evan, a’r ddau wedi gwasanaethu yn Rhyfel De Affrica. Roedd John yn aelod o’r heddlu, ac Evan yn filwr ym myddin y Cadfridog Buller.

Dychwelodd John i Gymru, a bu’n byw yn 39 Chapel Street, Caernarfon. Arhosodd Evan yn Ne Affrica, ac yno y bu farw yng Ngorffennaf 1916 gan adael gweddwa a thri o blant. Ar ei farwolaeth dywedir ei fod yn gweithio yn y mwyngloddiau aur, ac iddo wasanaethu gyda’r Ambulance Corps yn Rhyfel De Affrica.

Mae’n amlwg fod y Capten yn Ne Affrica yn 1903, ac iddo ddychwelyd i Gymru erbyn 1911. Roedd hefyd yn ddigon amlwg i gael sylw yn newyddion Pontrug. Ond pam cafodd ei gladdu yn Ninbych? A oedd cysylltiad â’r dref honno? Os oes unrhyw un o’r darllenywyr yn gwybod ei hanes, rhowch wybod.

Os oes gennych unrhyw ymholiad am agweddau o hanes lleol bro’r “Eco”, neu unrhyw hanesyn diddorol am unrhyw gyfnod yn hanes y fro, yna cysylltwch a Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon. LL55 4BA (Ffon: 01286 673515)

e-bost: dafydd.wthomas@btinternet.com neu ar safle chwilota.wordpress.com

Siopau.

Gyda diolch i Gareth Pritchard, Llandudno (Tan y Coed gynt) am anfon mwy o wybodaeth am y siopau a'r busnesau yn ardal Bryngwyn a Than y Coed, gan gynnwys y ddau lun.

Siop Lewis (Siop Tanycoed)

Lewis Roberts oedd y perchennog- ei wraig yn rhedeg y siop. Hefyd, busnes gwerthu glo yn cael ei redeg gan ei fab Huw (Huw Lewis i bawb)

Hefyd bu Lewis yn troi un o'i lorïau yn fws drwy roi 'to' arni i gario teithwyr i Gaernarfon!

Tŷ Capel (hen Gapel Bryngwyn)

oedd cartref Wil Paentiwr a ddymchwelwyd gan Eric Morris i adeiladu tŷ newydd a chadw bysys.

Becws Bryngwyn

Mam Gwyneth (nid Gwynedd) Yna Teulu Mothersole o Benbedw os cofiaf yn iawn. Wedyn Moi

Eric Morris

dechrau hefo tacsï Austin, yna'n prynu Rover mawr du (HLH7) o Gastell Bryn Bras (amser Welch) Gwerthu llefrith Tanycoed, Cwm y Glo a Llanberis. Cadw Siop. Prynu coets – yna dwy, tair a dal i gynyddu!

Siop Pant y Coed



Ail briododd fy hen nain (Catherine Humphreys) oedd yn weddw hefo John Hughes (eto'n weddw) – hen daid Eirian Morris a Rhiannon Stokes.

Wedyn Tom Hughes a'i wraig Lizzy.

Yna Eric Morris a Nancy.

Nhw'n gwerthu i Mrs Wynne, Groeslon Newydd (Mam Owen Edwyn). Nhw'n newid hefo John Parry, Gellioed a mynd i ffermio. Yr olaf gofïaf i yw Mrs Blanchard.



Ddol bach.

Doris a'i brawd, Gwilym yn gwerthu llefrith. Doedd dim poteli bryd hynny – a phawb â'i jwg neu biser at y drol oedd hi!

BETHEL

Dymunaf Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chwi gyd.

BYSIAU

Chwi gofiwch i broblem gorlenwi ar rai o'r bysiau Dinorwig i Gaernarfon drwy Fethel gael ei drafod yn y Cyngor Cymuned. Er gwybodaeth dyfynaf yma yr ateb a dderbyniwydd i e-bost y Clerc oddiwrth Nia Wyn Williams, Swyddog Cludiant y Cyngor Sir.

"Cyfeiriaf at eich e-bost parthed gwasanaeth bws 83, ac yn benodol y daith 9.40 am o Ddinorwig yn cyrraedd Bethel am 10.10am. Rwyf wedi gwneud ymholiadau gyda perchennog y cwmni sydd yn ymwybodol bod hyn wedi digwydd ar ddydd Iau, Hydref 31. Yn yr achos yma roedd y cwmni wedi gorfod defnyddio bws maint llai oherwydd gwaith ffordd yn Penisarwaun. Mae bws i gario 54 person ar y gwasanaeth yma fel arfer (29 sedd a 25 yn sefyll.)

Gobeithio bod hyn yn eglurhad i chwi ond os oes unrhyw ymholiadau pellach mae croeso i chwi gysylltu a mi."

Braidd yn anelwig yn fy marn i, ac yn sicr rhaid cwestiynu y posibilrwydd o 25 yn sefyll o gofio natur droellog y siwrnai.

CYDNABOD

Dymuna Rhian a Gareth Hughes, Erddig ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad â dderbyniwyd yn eu profedigaeth o golli Idris, brawd annwyl Rhian.

O'RYSGOL

Hoffai'r Prifathro, Staff a disgyblion Ysgol Bethel ddiolch i bawb a gefnogodd y Ffair Nadolig eleni. Diolch Ii'r Gymdeithas Rieni/ Athrawon am ei hymdrechion yn trefnu'r noson. Gwnaed elw

o £888 tuag at goffrau'r ysgol. Rhaghysbyseb am y Cyngerdd gyda Phil Gas a'r Band ddiwedd Ionawr yn y Neuadd. Mae'r tocynnau yn prysur ddiiflannu.

DIOLCH

Cymeraf y cyfle yma i ddiolch i chwi am eich ymddiriedaeth ynof (gobeithio) i adlewyrchu yn y golofn hon y gwahanol agweddau o fywyd amrywiol y pentref arbennig yma. Pentref o dalantau, a diolch i'r 'ffyddlon griw' sy'n cynnal sawl agwedd sy'n cyfoethogi ein bywydau. Ond, fel yr Eco ei hun, nid yw'r 'ffyddlon griw' am barhau am byth. Os am ddyfodol i'r cymdeithasau, clybiau, sefydliadau crefyddol, addysgol ... yna bydd angen gwaed newydd. Apêl sydd yma i leihau y baich.

"Mae na rywbeth am 'Dolig,' fyddai pobol yr hen ardal yn ei ddweud. Yng nghanol y 'llawnder', y miri a'r dathlu rwyn ymwybodol hefyd bydd rhai teuluoedd yma ym Methel yn syllu ar 'gadair wâg' o atgofion dros yr Wyl. Daeth yr 'hen alwad' ar ei held i'r ardal dros y flwyddyn. Rydym yn meddwl amdanoch yn eich hiraeth a sawl atgof yn sicr.

Ar nos Lun, Rhagfyr 2il cafwyd machlud rhyfeddol. Bum yng nghwmni fy wŷr bach am awr yn gwylio'r machlud o'r Foryd yng Nghaernarfon. Gwelai'r bychan y rhyfeddod, a chofiaf byth ei ddwy frawddeg i mi. "Taid ydy'r haul yn mynd ar dân?", ac fel y disgynai'r haul i'r heli, "Taid, ydyn ni wedi colli'r haul rwan?" O enaid plant bychain...

Teimlais innau'r wefr, a chyflwynaf yr englyn hwn i chwi sy'n teimlo unrhyw hiraeth o golled dros yr Wyl, gan obeithio y daw â rhywfaint o gysur i chwi.

Yn y cochni'n cau echnos, -lliw effaith

holl uffern marwydos.

I'n hil, sydd yn ofni'r nos y wawr sy'n mynnu aros.

CAPEL CYSEGR

Mewn cyfarfod o'r Swyddogion yn ddiweddar gwnaed penderfyniad i gasglu nwyddau tuag at Banc Bwyd Caernarfon. Bydd yr ymdrech yn cychwyn ar Sul cyntaf 2020 (Ionawr Sed.). Bydd modd gosod y cyfraniadau mewn 'bocs derbyn' a leolir yn y Festri. Yn amlwg, ni fydd y cyfraniadau yn gyfyngedig i aelodau'r Cysegr yn unig, a gall unrhyw bentrefwr gyfrannu. Fe fydd trefniant i drosglwyddo'r rhoddion i'r Banc Bwyd ar y dyddiau Llun.

Cofiwch hefyd am y Gwasanaeth Cymun Undebol ar fore Dydd Nadolig am 10am.

DIOLCH

Oherwydd dyddiad y rhifyn yma o'r Eco yn mynd i'w wely yn anffodus ni allaf gynnwys adroddiad/lluniau o'r niferus ddigwyddiadau Nadoligaidd a ddarparwyd ar ein cyfer eleni. Derbyniwch ein diolch felly chwi drefnwyr y Noson Garolau, Rita Williams am drefnu gwasanaeth Nadoligaidd y Clwb Bro, athrawon Gwasanaeth Nadolig yr Ysgol Sul a Chinio Nadolig y 60+ wedi ei drefnu gan griw Mish Mash. Tipyn o arlwy rhaid cyfaddef.

YDYFODOL

Mae'n ymddangos fod hi'n argoeli yn dda bellach ar i'r Eco gamu ymlaen.. Rwyn fodlon cario ymlaen fel Gohebydd Pentref gan fod rhwydwaith bellach yn danfon negeseuon, adroddiadau ataf yn rheolaidd. Rwyf yn credu ei bod yn bwysig adlewyrchu cyn gymaint o agweddau o fywyd y pentref - a 'styrio' weithiau! Wedi'r cwbl mae pawb eisiau 'gwybod' yn does!

OEDFAON IONAWR

CYSEGR 10am: 5/1 Arwel Williams 12/1 Gweinidog 19/1 Susan Williams (Oedfa Deulu) 26/1 Gweinidog

SARON 2pm: 5/1 Arwel Williams 12/1 Gwynfor Williams 19/1 Eurfryn Davies 26/1 Huw Pritchard

BETHEL 10am : 5/1 donald Pritchard 12/1 Dg 19/1 Reuben Roberts 26/1 J. Gwyndaf Jones

CYFARCHION

A'r rhifyn yma yn mynd i'w wely rydym yn danfon ein dymuniadau gorau i Margaret, 5 Bro Eglwys sydd yn ward Tryfan, Ysbyty Gwynedd ers cyfnod bellach. Dymuna Margaret Gyfarchion yr Wyl a Blwyddyn Newydd Dda i'w chydabod gan na fydd yn anfon cardiau eleni. Danfonwn ein cofion hefyd i Maud Williams, Deulyn a Myrna Owen, Camlan sydd wedi wynebu triniaeth ysbyty, ac i Morlais sydd wedi dychwelyd adref bellach. Croesawn Pat Owen, Cefn Cynrig yn ôl hefyd wedi cyfnod yn yr ysbyty. Digon o orffwys dros yr Wyl rwan.

CYFARCH

Dymuna Elizabeth Evans, Pen-parc, Bethel gyfarchion yr Wyl a'r Flwyddyn Newydd i'r llu cyfoedion a theulu fu'n gefn iddi dros y flwyddyn diwethaf. Trysorir y gefnogaeth a'r caredigrwydd. Yn lle danfon cardiau, bydd Elizabeth yn gwneud cyfraniad ariannol tuag at Ysgol Pendalar. Bydd Ionawr 3ydd, yn ddiwrnod pwysig ym Mhen-parc gan bydd David ac Ann, efeilliaid Elizabeth yn cyrraedd y 60 oed. Llongyfarchiadau o flaen llaw.



GERAINT OWEN
CARPEDI

Cil y Mynydd Waunfawr Gwynedd
A Uned 5 Gwyrfa Mill, Bontnewydd

(01286)650552 Mob. 07712779475

CARPEDI
TEILS
VINYLS
DEWIS MAWR
O BATRYMAU

Cynnal a Chadw Gerddi ac Adeiladau



TORRI GWAIR/ GWRYCHOEDD/ COED
PLANNU • CHWYNNU • PEINTIO • GWAITH COED
PLASTRO • GOSOD CEGINAU *AMCANGYFRIF AM DDIM*

Sion Roberts ▶ **07759415753**
3 CARADOG PLACE • DEINIOLLEN • LL55 3H5

CLWB BRO BETHEL



Gyda'r gwynt cryf yn hyrddio'r Fenai hyd waliau Biwmares cafodd tri deg pump o aelodau y Clwb ddathlu'r Nadolig yng Nghwesty'r Bulkeley. Cafwyd pnawn braf o sgwrsio a chymdeithasu a mwynhau gwledd. Diolch hefyd i'r sawl a gyfranodd at y raffl yn sicrhau bod pob aelod yn mynd adref



a 'rhywbeth yn eu sach'. Diolch i Mary Wyn ac Anne Elis unwaith eto am eu trefniadau a Bws Derfel am ein cludo. Ceir gosteg rwan tan gyfarfod Mis Chwefror pan fydd Wil Lloyd Davies, Caernarfon yn ŵr gwadd. Edrychwn ymlaen.

Llongyfarchiadau



Teilwng iawn o'n llongyfarchiadau yw Carol Davies-Owen, Stad y Rhôs. Yn ddiweddar derbyniodd gydnabyddiaeth am ei gwaith arloesol ym maes Therapi Lleferydd, yn benodol gyda phlant ag anableddau dysgu dwys. Fe sefydlodd Carol gynllun sy'n galluogi disgyblion ysgolion Pendalar, Hafod Lon a Chanolfan y Bont i gydweithio yn agosach gyda gwahanol stratedigaethau yn y maes yma. Cyflwynir y gydnabyddiaeth fel rhan o gynllun Llwybrau Cyrhaeddiad Bwrdd Betsi Cadwaladr. Yn y cyflwyniad sonnir am ymroddiad Carol i'r maes yma a'r dulliau a ddefnyddir i wella hyder yr unigolion. Mae bwriad hefyd i ddefnyddio gweledigaeth Carol fel sylfaen datblygiad mewn Byrddau Iechyd eraill ledled Cymru.

Merched y Wawr.



Eleni fe aeth y gangen draw i westy'r Victoria yn Llanberis i ddathlu'r Nadolig mewn ystafell a oedd wedi ei haddurno yn hardd. Cawsom noson gwerth chweil gyda bwyd hynod o flasus a chwmni hwyliog. Roedd ein llywydd Mair Read wedi paratoi cystadleuaeth cyfansoddi limrig i'n difyrru ac ar ôl y wledd roedd yr ystafell yn llawn o sŵn chwerthin wrth iddi eu darllen allan. Gan ei bod yn noswyl yr etholiad gallwch feddwl fod sawl un wedi cyfeirio at Boris a Brexit, ond hon aeth a hi ar y noson:

Daeth y Merched mewn bws i Lanberis,
Nid oedd diwedd ar lowcian y sheris,
Roedd Derfel reit flin
Pan aeth tair ar ei lin
Fe ddreifiodd full speed am Nant Peris!

Llongyfarchiadau i Elen Elis am gael ei choroni yn Frenhines y Limrig!
Wedyn darllenwyd allan y cynigion ar gyfer y gystadleuaeth brawddeg gyda phob gair yn dechrau efo B. Anne Elis gafodd ei choroni am ei brawddeg dymhorol: Babi bach, beudy, buwch, bugeiliaid - bendithiwyd bobl y byd.
Enillwyd y raffl gan Eirlys Williams, Anne Elis, Mair Williams ac Eryl Roberts. Dymunwn Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb ac edrychwn ymlaen at groesawu Marged Tudur i'r gangen yn Ionawr.



Parhad BETHEL

Eisteddfod Bethel 2019

Cynhaliwyd yr Eisteddfod ddydd Sadwrn, Hydref 19eg, 2019. Y beirniad cerdd oedd Angharad Wyn Jones, Llanwnda, a'r beirniad llefaru oedd Angharad Blythe, Llandwrog. Arweinyddion y prynhawn oedd Gwion Owen ac Angharad Price, gyda Manon Gwynedd ac Anita Owen yn arwain cyfarfod yr hwyr. Y cyfeilyddion oedd Siôn Elwyn, Manon Elwyn, Deilwen Hughes, Gwenllian Griffiths a Heledd Price. Gwawr Hughes-Owen a Carys Hughes-Jones oedd yn gyfrifol am ddosbarthu'r rhubanau i'r plant ieuengaf.

Canlyniadau:

CANUACOFFERYNNOL Unawdau

Dosbarth Meithrin: 1af Siwan, 2il Llew, 3ydd Osian
 Dosbarth Derbyn: 1af Llew, 2il Edith, 3ydd Twm
 Blwyddyn 1: 1af Ffion, 2il Siwan, 3ydd Tomi
 Blwyddyn 2: 1af Owain, 2il Lydia, 3ydd Efa a Megan
 Blynyddoedd 3 a 4: 1af Sara Lois, 2il Rhiannon, 3ydd Lleucu
 Blynyddoedd 5 & 6: 1af Gruff, 2il Llŷr, 3ydd Anna
 Blynyddoedd 7-9: 1af Beca, 2il Gwawr, 3ydd Cadi
 Blynyddoedd 10-13: 1af Erwan, 2il Heledd, 3ydd Owain

Partion Canu

Blynyddoedd 1-3: 1af Parti Rwdlan, 2il Parti Fflur
 Blynyddoedd 4-6: 1af Saith Selog, 2ail Parti Gwyllt
 Parti Canu Uwchradd Côr

Alaw Werin

Blynyddoedd 7-13: 1af Gwawr Cerdd Dant

Blynyddoedd 1-6 : Gruff
 Blynyddoedd 7-13: 1af Heledd, 2il Gwawr

Piano

Blynyddoedd 6 a Iau: 1af Llŷr, 2il Erin, 3ydd Gruff
 Blynyddoedd 7-9: 1af Owain, 2il Mari, 3ydd Beca
 Blynyddoedd 10-13:

Deuawd: 1af Gwenllian a Heledd,

Offerynnol

Blynyddoedd 1-6: 1af Gruff, 2il Llŷr,
 Blynyddoedd 7-9 : 1af Mari, 2il Cadi Glain
 Blynyddoedd 10-13:

Cân Gyfoes:-1af-Heledd, 2ail Tomos, 3ydd Beca

Meimio i Gân Gyfoes:
Grŵp Offerynnol:
LLEFARU

Dosbarth Meithrin: 1af Osian, 2il Arthur, 3ydd Siwan
 Dosbarth Derbyn: 1af Llew, 2il Edith, 3ydd Eila
 Blwyddyn 1: 1af Ffion, 2il Efa, 3ydd Siwan a Tomi
 Blwyddyn 2: 1af Lydia, 2il Megan, 3ydd Lilly
 Blynyddoedd 3 a 4: 1af Rhiannon a Kyla, 2il Leia, 3ydd Lleucu
 Blynyddoedd 5 & 6: 1af Llŷr, 2il Caio Robin, 3ydd Erin
 Blynyddoedd 7-9: 1af Gwawr, 2il Ifan
 Blynyddoedd 10-13: 1af Gwenllian

Partion Llefaru

Blynyddoedd 1-3: 1af Parti Rwdlan, 2il Parti Oliver
 Blynyddoedd 4-6: 1af Saith Selog, Parti Gwyllt
 Blynyddoedd 7-13: 1af Parti Eban

Darn Stori a Sain: 1af Bryn a Elis, 2il Manon a Menna, 3ydd Cai a Eban

ENILLWYR Y TLYSAU

Tlws er cof am Richard Hughes (Ysgol Yrru Bethel) (Llefaru Cynradd): Llŷr Elwyn
 Tlws Llefaru Uwchradd: Gwenllian Griffith
 Tlws Coffa Siân Robinson (Stori a Sain): Bryn a Elis Gruffydd

Tlws Parcy Wern (Parti Llefaru Cynradd): Parti Rwdlan

Tlws Coffa Goronwy Jones (Lleisiol Cynradd): Sara Lois

Tlws Coffa W.G. Ellis (Piano Cynradd): Llŷr Elwyn

Tarian Ael y Bryn (Offerynnol Cynradd): Gruff Evans

Tlws Coffa Mrs Joan Foulkes (Lleisiol Uwchradd): Heledd Prys

Tlws Coffa John M. Williams: (Piano Uwchradd): Owain Roberts

Tlws Teulu Penparc (Offerynnol Uwchradd): Mari Buck

Tlws Llwyn Eithin (Parti Canu Cynradd): Parti Rwdlan

Tlws Coffa Annie E. Williams (Parti Llefaru Uwchradd): Parti Eban

Mae'r tlysau bach sydd i'w cadw am byth yn rhoddedig gan Iwan ac Eirian Davies, Wil a Nora Parry, Brian ac Eirlys Sharpe, Elwyn a Gwyneth Jones, Rita Williams, Menna Williams, Alun a Sheila Foulkes, Huw a Nan Jones, Gareth a Rhian Hughes, Emyr ac Anita Owen, Arwel a Iola Jones, Deilwen ac Elwyn Hughes.

S E R E M O N I ' R CADEIRIO

Ein beirniad Llên oedd

Angharad Blythe, Llandwrog, a braf oedd ei chroesawu i Fethel ar gyfer y Seremoni. Y Prif Lenor Cynradd oedd Llŷr Elwyn a'r Prif Lenor Uwchradd oedd Heledd Prys.

Derbyniodd y llenor cynradd Dlws y Gymdeithas Lenyddol a thlws i'w gadw am byth yn rhoddedig gan Manon Gwynedd. Derbyniodd y llenor Uwchradd Dlws Merched y Wawr er cof am Miss Maggie Owen, a thlws i'w gadw am byth yn rhoddedig gan Gareth a Manon Griffiths.

Yr oedd yr Orsedd o dan ofal medrus Manon Gwynedd. Osian Herbert oedd Ceidwad y Cledd, Ifan Aled ac Eban Moss yn chwythu'r Corn Gwlad, Gwenllian yn canu Cân y Cadeirio a Siôn Elwyn yn cyfeilio. Cyrchwyd y llenorion i'r llwyfan gan Siôn Llwyd ac Ana Rhodd. Erin a Riwan gyfarchodd y llenorion gyda phenillion a gyfansoddwyd gan Siôn Elwyn a hefyd a gyflwynodd y tlysau i'r llenorion buddugol.

Cyflwynir Y Gwpan er Cof am Geraint Elis i'r llenor buddugol ym Mlynnyddoedd 7- 9 yn ogystal â thlws i'w gadw am byth gyda'r arian. Enillydd y Gwpan oedd Tomos Gibson.

C A N L Y N I A D A U LLENYDDIAETH

Meithrin: 1af Kensi-Jo, 2ail-Harri T, 3ydd-Caio a Llew

Derbyn: 1af Greta, 2ail-Eila, 3ydd- Math Gwyn

Blwyddyn 1: 1af Tomi, 2il Gwil, 3ydd Efa Oliver

Blwyddyn 2: 1af Fflur Wyn, 2il Lydia, 3ydd Asia

Blwyddyn 3: 1af Megan Williams ; 2il Kyla; 3ydd Lexi

Blwyddyn 4: 1af Leia, 2il Anna, 3ydd Caio Orlik

Blwyddyn 5: 1af Efa Roberts, 2il Cadi Williams 3ydd Tomos Pritchard

Blwyddyn 6: 1af Llŷr Elwyn, 2il Sara Jones, 3ydd Siôn Llwyd Lewis

Blynyddoedd 7-9: 1af Tomos Gibson, 2il Mari Williams, 3ydd Mari Buck Jones a Owain Roberts

Blynyddoedd 10-13: 1af Heledd Prys, 2il Cai Moss, Y Limrig: Yvonne Griffith Jones

Llain yr Ardd:-1af Helen Morris.

CYSTADLAETHAU CELFACHREFFT

Y beirniad oedd Mrs Nia Wyn Huws, Rhosgadfan. Unwaith

eto cafwyd ymateb da i'r cystadlaethau celf a chreffft gyda nifer o eitemau creadigol iawn. Braff oedd cael arddangos y gwaith yn y Neuadd fechan ar ddiwrnod yr Eisteddfod.

Tlws Celf Gwaith Cynradd (wedi ei wneud yn yr ysgol): Wren

Tlws Celf Gwaith Cynradd (wedi ei wneud yn y cartref): Efa Wyn Williams

Tlws Celf Gwaith Uwchradd (wedi ei wneud yn y cartref): Cai Moss

NOSONDDAWNSIO

Cynhaliwyd noson o ddawnsio llwyddiannus iawn yn y Neuadd Goffa ar Fai 21ain. Y beirniaid oedd Chloe Roberts. Trefnwyd y noson gan Sasha Williams.

Tlws Teulu Treflys a thlws bychan i'w gadw am byth wedi ei roi gan Enid a Meurig Huws (Dawnsiwr y Noson): Olly
 Tlws Teulu Cefn Ffrwd a thlws bychan i'w gadw am byth wedi ei roi gan Rhys a Siân Harris (Perfformiwr Y Noson): Elen Williams

Dawnsio Disgo Unigol

Blynyddoedd 3-6: 1af Olly, 2il Cadi, 3ydd Lydia

Dawnsio Disgo Pâr

Blynyddoedd 6 ac iau: 1af Cadi a Leia

Dawnsio Disgo/Creadigol i Grŵp

Blynyddoedd 2 ac iau: 1af Sêr Bach

Blynyddoedd 3-6: 1af Digrifwyr Doniol, 2il Llwh Lloer, 3ydd Grŵp Beca

Dawnsio Gwerin: Grŵp Leia

Diolch i bawb am eu cefnogaeth ac am fod yn rhan o Eisteddfod Bethel 2019.

Diolch yn arbennig i bawb a fu'n cystadlu; i'r beirniaid am eu hamser, eu cyngor a'u cwmni; i Athrawon a Staff yr Ysgol Gynradd a'r Cylch Meithrin am eu cefnogaeth gyda'r cystadlaethau Llên, arlunio, canu a llefaru unigol; i'r holl wirfoddolwyr am roi eu hamser prin i hyfforddi, arwain a chyfeilio; i rieni am gyrchu eu plant yn ôl ac ymlaen i'r ymarferion ac i Bwyllgor y Neuadd Goffa am gael defnydd o'r Neuadd yn ystod yr wythnos. Diolch i ffrindiau a busnesau lleol am roddion tuag at y raffl a chostau'r Eisteddfod a diolch i bawb o Bwyllgor yr Eisteddfod am eu gwaith caled unwaith eto er mwyn sicrhau Eisteddfod lwyddiannus unwaith eto eleni.



Cymdeithas Edward Llwyd

Cymdeithas Genedlaethol Naturiaethwyr Cymru

Elusen Gofrestredig rhif 1126027



Cwtiad y Traeth

Mae mynd am dro yn ffordd dda o leddfu'r straen dyn ni i gyd yn dioddef o bryd i'w gilydd. Cyfle i ni roi'r byd a'i bethau yn ôl yn ei le. Mae pawb yn dioddef pob hyn a hyn.

Mae natur wedi gorfod dioddef pethau ofnadwy am gyfnodau hir iawn, dynolryw yn cymryd mantais o'i chyfoeth a chreu llanast mawr er mwyn cael y cyfoeth iddyn nhw eu hunain. I lawr fan hyn yn y de mae aelodau'r Gymdeithas yn cerdded yn ardaloedd yr hen feysydd glo ac erbyn hyn ychydig iawn o olion y diwydiant sydd ar ôl. Mae gwyrddni ym mhob man a physgod yn ôl yn yr afonydd, llefydd i chwarae a llefydd i fwynhau'r awyr iach. Yn ddiweddar roedd ein taith yn mynd â ni o'r Rhondda Fawr dros y mynydd i'r Rhondda Fach. Wrth gael golwg oddi uchod roedd y cymoedd yn edrych fel lle braf iawn i fyw, yn lân ac yn lliwgar. Mae heriau newydd gan fyd natur y dyddiau yma ond o leiaf erbyn hyn mae gynnon ni gydwybod - croeswch eich bysedd!

Wrth gerdded ar ochr yr afon Menai yn ddiweddar (ia, mae'n braf i fynd o un pegwn i'r llall) welais i Gwtiaid y Traeth yn aros yn amyneddgar ar y cerrig yn cael sgwrs ac ambell i jôc, siŵr o fod. Maen nhw'n hoffi treulio eu hamser yn chwilio am fwyd ymysg y cerrig - Turnstone yw'r enw yn Saesneg. Dyna beth maen nhw'n neud. Maen nhw'n gwybod bydd y llanw yn mynd allan unwaith eto iddyn nhw gael cyfle i chwilio am rywbeth blasus. Mi nes i aros am sbel yn eu gwyltio nhw, yr haul yn gynnes ar fy nghefn. Braf iawn yw crwydro.

Dewch efo ni i fwynhau ein cefn gwlad, edrychwch ar ein gwefan cymdeithasedwardllwyd.cymru i weld os ydan ni'n cerdded yn eich ardal. Bydd croeso mawr i chi!

Rob Evans



Siân Gwenllïan

Aelod Cynulliad Etholaeth Arfon

▼

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch a hi yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
(01248) 372948

Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
(01286) 672076

Sian.Gwenllian@cynulliad.cymru

Ras Ddarllen 2019

Bu nifer enfawr o blant ym mhob rhan o'r wlad yn cymryd rhan yn y sialens ddarllen i ddathlu ugain mlynedd ers ei sefydlu. Y thema yn 2019 oedd y ras ofod, i nodi hanner can mlynedd ers glanio ar y Lleuad.

Llwyddodd sialens ddarllen The Reading Agency a'r llyfrgelloedd cyhoeddus i gyrraedd 37,469 o blant ledled Cymru yn ystod gwyliau haf yr ysgolion. Mae'r sialens yn cael ei chymeradwyo gan rieni, athrawon, Cyngor Llyfrau Cymru a Llywodraeth Cymru.

Y sialens ddarllen yw'r ymgyrch flynyddol fwyaf ym Mhrydain i hyrwyddo darllen ymysg plant rhwng 4 ac 11 oed. Ei nod yw eu hannog i ymweld â'u llyfrgelloedd lleol a'u hysbrydoli i ddarllen er mwyn pleser. Mae pob un o'r awdurdodau llyfrgell yng Nghymru yn cymryd rhan.

Gyda phwysau cynyddol ar y system llyfrgelloedd cyhoeddus o ran staffio ac adnoddau, mae'n galonogol bod llyfrgelloedd yn dal i allu cynorthwyo llawer iawn o blant i ddarllen yn ystod gwyliau'r haf, gyda 62% yn mynd ymlaen i gwblhau'r sialens a darllen chwech neu ragor o lyfrau.

Mae ymchwil yn dangos mai dim ond 1 ym mhob 4 bachgen sy'n darllen y tu allan i'r ystafell ddosbarth bob dydd; fodd bynnag, roedd 45% o ddarllenwyr y sialens yn fechgyn.

Y flwyddyn nesaf, thema Sialens Ddarllen yr Haf 2020 fydd Sgwad Gwirion, i ddathlu llyfrau doniol, hapusrwydd a chwerthin.



Hywel Williams

Aelod Seneddol Etholaeth Arfon

▼

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076

neu
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR
01248- 372948

williamshy@parliament.uk

Clwb Crwydro Brynrefs



Ar fore digon oer a gwlyb, dydd Sadwrn Tachwedd 23ain fe gynhaliwyd taith gyntaf Clwb Crwydro Brynrefs yn ardal Rhyd Ddu, Dyffryn Nantlle. Dr Gareth Evans gynigodd yr enw, fel gwrogaeth i glwb llwyddiannus fuodd yn Ysgol Dyffryn Nantlle dros sawl degawd - gychwynnwyd gan neb llai na Mr John Grisdale, cyn bennaeth Ysgol Brynrefail.

Penderfynwyd ffurfio'r clwb crwydro gan bod gofalu am iechyd a lles staff a disgyblion yn un o brif flaenoriaethau'r ysgol. Diolch yn fawr i Mr Sion Jones am wirfoddoli i drefnu'r teithiau byddwn yn cael cyfle i'w profi yn ystod y flwyddyn. Gan mai hon oedd y daith gyntaf a hithau'n fis Tachwedd, y mis du, penderfynwyd ar lwybr digon sad dan droed ond un fyddai'n rhoi cyfle i ymlwbyro i ben ucha' Coedwig Beddgelert i ardal Cwm Du a Llyn Llywelyn. Cyfle i gerdded rhyw 8 milltir ar hyd rhan o Lôn Las Gwyrfa i lonydd comisiwn coedwigaeth a chael tamaid bach i fwyta ar lan Llyn Llywelyn cyn dychwelyd i'r maes parcio.

Er gwaetha'r dilyw gafwyd ben bora, erbyn i ni gychwyn o faes parcio gorsaf drenau Rhyd Ddu roedd y glaw wedi cilio a ni ddychwelodd yn ôl tan derfyn y daith. Y criw ar y daith gychwynnol yma oedd Mrs Sharon Griffiths, Mr Alun Pritchard, Mrs Bethan Williams, Mrs Heulwen Jones, Mrs Alaw Llwyd Roberts a'i phlant; Cian ac Anes a Myrtyl y ci.

Bwriedir cynnig teithiau cyffelyb, unwaith y tymor gan obeithio cynnig un ychydig yn fwy heriol yn dymhorol yn ogystal.

Gweithiwr Ieuenctid newydd yr ardal ydi...




Ffion Williams
07909 893 715

Cysyllta efo Ffion ar y nif ffôn uchod, neu os oes gen ti unrhyw ymholiad arall am y Gwasanaeth Ieuenctid, anfonw e-bost at:

ieuentid@gwynedd.llyw.cymru

 ieuentid Gwynedd Youth
  @leuGwyneddYouth
  ieuentidgwyneddyouth
  leugwyneddyouth

Diwrnod Iechyd Meddwl blwyddyn 9



Fel y gwyddom i gyd mae edrych ar ôl ein hiechyd yn holl bwysig. Y dyddiau hyn mae yr un faint o sylw'n cael ei roi i iechyd meddwl ag sydd i iechyd corfforol ac mae llawer mwy o barodrwydd i drafod iechyd meddwl nag a fu. Yn yr ysgol rydym yn rhoi pwyslais mawr ar bwysigrwydd iechyd meddwl ac yn gweld hefyd bod cyswllt amlwg rhwng corff iach a meddwl iach.

Oherwydd bod gofalu am les disgyblion a staff yn un o'n blaenoriaethau fel ysgol aethom ati i gynnal Diwrnod Iechyd Meddwl i ddisgyblion blwyddyn 9 ar ddydd Llun, Tachwedd 25ain. Y Penaethiaid Blwyddyn oedd yn gyfrifol am drefnu'r diwrnod wedi i ddau ohonynt ac un o'r cymorthyddion fynychu hyfforddiant arbennig wedi ei drefnu gan 'Gweithredu Dros Blant' (Action for Children) ar gyfer staff ysgolion Gwynedd.

Yn ystod diwrnod llawn o weithgareddau dysgodd blwyddyn 9 am wahanol gyflyrrau meddyliol, symptomau a strategaethau i ddelio gyda phroblemau iechyd meddwl fel gor-bryder, straen a theimlo'n ddigalon. Dysgodd y staff a'r disgyblion lawer o wybodaeth ddiddorol ar y diwrnod a chawsant gyfle hynod o werthfawr i drafod pwnc sy'n gallu effeithio ar bob un ohonom ar gyfnodau mewn bywyd. Diolch yn fawr iawn i Mrs Nia Williams, Mrs Sian Harris, Ms Sam Jones, Mrs Anwen Edwards a Mr Tyler French am gynnal y diwrnod ac i Ffion Williams. Gweithiwr Ieuenctid dalgylch Brynrefail am ymuno gyda'r dosbarthiadau am y diwrnod.

Beth amdani, BYDD YN RHAN OHONO...

Dod o hyd i ni ar cyfryngau cymdeithasol



Ffôn: 01286 679187

ebost ieuentid@gwynedd.llyw.cymru



Ffair Nadolig BAC blwyddyn 10

Ar ddydd Gwener, Rhagfyr 6ed bu blwyddyn 10 yn hynod o brysur yn paratoi ac yn cynnal Ffair Nadolig ar gyfer disgyblion blynyddoedd 7 ac 8. Roedd y diwrnod yn un o heriau'r Fagloriaeth Gymreig. Cafodd y disgyblion iau amser hwyliog iawn yn y ffair yn prynu cacennau a fferins, yn cystadlu mewn amrywiaeth o gemau megis taro'r pêl-droediwr a phêl fasged ac yn cael cyfle i brynu crefftiau roedd rhai o ddisgyblion blwyddyn 10 wedi eu creu eu hunain. Stondin hynod boblogaidd oedd yr un lle roedd cyfle i'r disgyblion gael gliter mewn siapau Nadoligaidd ar eu hwynebau a'r stondin tatŵ hena. Gwelwyd ambell Sion Cornn, angel a charw o gwmpas yr ysgol wedi hynny!

Da iawn nhw am wneud gwaith arbennig o dda a llwyddo i gasglu'r arian sef £567 tuag at Tŷ Gobaith.



Gwasanaeth Adfent



Dyma lun o griw o'r ysgol fu'n cymryd rhan yng Ngwasanaeth Cymunedol Nadolig Capel y Rhos, Llanrug ddechrau'r mis. Mewn capel oedd yn llawn, mwynhawyd noson o ganu corawl gyda disgyblion Ysgol Brynrefail ac Ysgol Gynradd Llanrug yn cymryd rhan. Noson i'w chofio!

Prosiect Gwirfoddoli Urdd Gobaith Cymru i Batagonia 2020



Mae Gwion Llewelyn o Glwt y Bont wedi llwyddo i gael ei ddewis i ymweld â'r Wladfa ym Mhatagonia gyda Urdd Gobaith Cymru yn ystod 2020. Mi fydd yn rhan o grŵp yr Urdd a fydd yn ymweld â Phatagonia fel rhan o brosiect gwirfoddoli rhyngwladol.

Yn ystod ei amser ym Mhatagonia mi fydd yn gwneud pob math o waith gwirfoddol, gan gynnwys gwneud sesiynau gyda phlant a phobl ifanc sy'n dysgu Cymraeg yno, ymweld â thrigolion y Wladfa o dras Cymraeg, gweithio mewn ysgolion, cynorthwyo gyda phrosiectau cymunedol ac yn cynrychioli Cymru yn Eisteddfod Y Wladfa.

Mae yna gost ar gyfer y daith yma. Mae pob unigolyn yn gorfod codi £2,575 i gymryd rhan yn y prosiect. Mae'r arian sy'n cael ei godi hefyd yn cefnogi gwaith Menter Patagonia, prosiect sydd yn cefnogi ac yn datblygu gwaith cymunedol yn Y Wladfa. Os oes unrhyw un yn gallu cynorthwyo Gwion i godi arian trwy ei noddi, mi fyddai yn hynod ddiolchgar os allwch gysylltu ar 01286 870 394 neu trwy e-bost ar glyn.gruffudd@btinternet.com

Eglwys Llandinorwig Noswyl Nadolig (24 Rhagfyr) bydd Cymun yr Ŵyl am 6p.m. yn ôl yr arfer yn Eglwys Crist gyda'r Canon Idris Thomas. Gwasanaeth uniaith Gymraeg fydd hwn, yr unig un yn Eglwys Anglicanaidd Bro Eryri. Dewch i Eglwys Llandinorwig y Nadolig hwn, bydd croeso cynnes i chi oll.

Cyngerdd Nadolig Cynhelir Cyngerdd mawr yr Ŵyl yn Eglwys Llandinorwig ar nos Sul, Rhagfyr 22ain, am 5.30p.m. Mae lluo o artistiaid lleol talentog sydd o safon cenedlaethol yn cymryd rhan. Brysiwch am docynnau trwy gysylltu â Heledd ar 07787826875 cyn iddi fynd yn rhy hwyr.

Nadolig Llawen i holl drigolion y pentref, yr ardal a darllenwyr yr Eco a dymuniadau gorau i bawb am y flwyddyn newydd i ddod. Diolch hefyd i olygyddion a phwyllgor yr Eco am eu gwaith diflino yn ystod y flwyddyn, mae ein diolch iddynt yn fawr iawn.

Gŵyl Deiniolen a'r Cylch Cafwyd noson lwyddiannus eto eleni yn rhoi golau Nadolig y pentref ymlaen. Daeth torf fawr ynghyd i wrando ar Seindorf y pentref, gweld Brenhines yr Ŵyl yn rhoi'r goleuadau ymlaen a mwynhau'r eira a ddisgynnodd yn ystod yr hwyl. Diolch yn fawr i'r Wellington am ddarparu lluniaeth, i'r Seindorf am eu cyfraniad ac i bawb a gefnogodd y noson.

Mi fydd yr Ŵyl yn cynnal Te Bach Nadolig am 1.00 ar Ragfyr 10fed yn Nhŷ Elidir gyda adloniant a hwyl gyda gwestai arbennig.

Mi fydd pwyllgor yr Ŵyl eleni eto yn helpu Siôn Corn i ymweld â thai'r pentref a'r ardal yn ystod nos Sul, Rhagfyr 15fed, gan rannu danteithion a dymuniadau gorau i drigolion yr ardal.

Dymuna'r Cynghorydd Elfed Williams Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i holl drigolion y pentref a'r ardal ac i darllenwyr yr Eco a diolch i bawb a'i cefnogodd yn ystod y flwyddyn.

Cymdeithas Lenyddol Deiniolen Cafwyd cyfarfod hynod o ddifyr yn ystod mis Tachwedd yng nghwmni Gari Wyn a fu'n adrodd hanes gŵr arbennig iawn o'r enw John Owen, Ty'n Llwyn, Pentir. Mae Gari bellach yn byw yn Ty'n Llwyn a difyr oedd clywed hanes cyn berchennog yr eiddo yma. Diolch i bawb a gefnogodd gyfarfodydd y Gymdeithas hyd yn hyn. Mi fyddai'n dda gweld wynebaw newydd yn y flwyddyn newydd gan fod digon o gyfarfodydd eto i ddod. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Ionawr 27ain am 7.00 yn Nhŷ Elidir ar y testun Cau Chwarel Dinorwig yng nghwmni Cadi Iolen o'r Amgueddfa Lechi.

Plaid Cymru Cafwyd cyfarfod yn ddiweddar i ail sefydlu cangen Deiniolen o Blaid Cymru. Daeth Hywel Williams a Siân Gwenllian draw i gefnogi a dewiswyd swyddogion yn ystod y noson. Y bwriad yw i gynnal nifer o weithgareddau yn y pentref yn ystod y flwyddyn newydd ac fe gyhoeddwyd manylion yn nes at yr amser. Croeso i unrhyw un â diddordeb fynychu.

Diolch. Dymuna Megan, Ellen a Sian, a'r teulu ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn dilyn colli Hefin Goronwy. Diolch am bob ymweliad, sgwrs ar y ffôn, y cardiau, y geiriau caredig a'r holl flodau. Derbyniwyd rhoddion hael er cof am Hefin, a bu'r cyfan yn gysur mawr.

Cyfarchion Nadolig. Dymuna Jennie Williams, 1 Rhydfadog, ddymuniadau gorau'r Ŵyl i'w theulu, ei chymdogion a'i ffrindiau, gan na fydd yn anfon cardiau eleni.

Dymuniadau Gorau i Anti Gwen ar ei hymddeoliad o Ysgol Gwaun Gynfi ar y 29ain o Dachwedd. Bu yn gweithio yn yr ysgol am 35 o flynyddoedd fel Anti ar y buarth a Chlerc Arian Cinio. Bydd yn golled fawr i blant a staff yr ysgol. Gobeithio y wnaiff fwynhau ei hymddeoliad a dymuniadau gorau iddi.

Ysgol Gwaun Gynfi

Derbyniwyd captions i nifer o luniau yn ymwneud â gweithgareddau'r disgyblion. Yn anffodus, ni dderbyniodd y golygydd y luniau eu hunain.

Gwasanaeth Gwres a Plymio

Ar Gyfer Eich Holl Anghenion Gwres A Plymio
Gwaith proffesiynol o'r safon orau pob amser

Arwel Jones - 1 Cefn Cynrig • Bethel • LL55 1UW
Tel. (01248) 674927 Mobile- 07798 746718

AVW Arbenigwyr mewn ceir VW, Audi, Seat, Skoda & Porsche

Gwasanaeth Lleol, Cyfeillgar a Phroffesiynol ers 1975.

Which? Trusted trader 01286 673559

Zone 2, Cibyn Ind Est, Caernarfon, LL55 2BD - www.AVWBosch.co.uk

Parhad DEINIOLLEN



Plant a chyn-chwarelwyr yn rhannu straeon i lansio Diwrnod y Llyfr 2020

Bu plant Ysgol Gwaun Gynfi yn cymryd rhan mewn prynhawn o rannu straeon traddodiadol gyda'r Archdderwydd Myrddin ap Dafydd a grŵp o gyn-chwarelwyr lleol, fel rhan o ddiwyddiad arbennig i lansio Diwrnod y Llyfr 2020.

Ymunodd grŵp o ddisgyblion Blwyddyn 6 Ysgol Gwaun Gynfi yn Neiniolen â'r awdur a'r cyhoeddwr am stori wrth y tân o'i lyfr newydd Stori Cymru – Iaith a Gwaith, yn Amgueddfa Lechi Cymru yn Llanberis.

Llyfr Myrddin yw'r llyfr £1 Cymraeg cyntaf i gael ei gyhoeddi ar gyfer Diwrnod y Llyfr 2020, ac mae'n adrodd hanes Cymru a gwaith ei phobl drwy stori a chân.

Mae'r ysgol yng nghysgod hen Chwarel Dinorwig oedd yn cyflogi miloedd o bobl ar ei anterth – teidiau a chyn-deidiau'r disgyblion presennol. Ond ar ddechrau'r ugeinfed ganrif dechreuodd y diwydiant ddirywio a gwelwyd streiciau ac anghydfod wedi hynny. Cafodd effaith y diwydiant ar ddiwylliant a threftadaeth Cymru ei chydabod yn dilyn enwebiad gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig am statws Treftadaeth y Byd gan UNESCO yn 2018.

Mae Stori Cymru – Iaith a Gwaith yn dathlu gorffennol Cymru fel y genedl ddiwydiannol gyntaf yn y byd, tra bod y straeon hefyd yn cydnabod beth oedd effaith hynny ar ei phobl, sef llafur caled, dioddefaint a damweiniau.

Ymunodd cyn-chwarelwyr o safle Dinorwig – llawer ohonyn nhw bellach yn eu hwythdegau a'u nawdegau – â'r plant a Myrddin ap Dafydd yn y digwyddiad, i rannu eu straeon a'u profiadau o weithio yng nghanol gorffennol diwydiannol Gwynedd.

Dywedodd Gwynfor Williams, 90 oed: “Dechreuais weithio yn y chwarel ym 1945 pan oeddwn i ddim ond yn 16 oed. Roedd yn waith caled, ond mae gen i lawer o atgofion melys o'r amser a dreuliais yno.

“Rwyf wedi mwynhau rhannu fy straeon gyda'r plant heddiw, a thrwy wneud hynny, mae'n golygu na fydd y straeon am weithio yn y chwareli byth yn marw; bydd y cenedlaethau nesaf yn eu cadw'n fyw.”

Wrth siarad am y digwyddiad, meddai Myrddin ap Dafydd, a ddaeth yn Archdderwydd Cymru yn 2018: “Mae tirwedd, iaith, treftadaeth a hanes i gyd wedi'u cydblethu yng Nghymru, ac mae'r llyfr yma'n ddathliad o hynny. Mae ein tirwedd ddramatig a'r stori mae'n ei hadrodd o'n gorffennol yn ein hatgoffa'n ddyddiol o'n hanes unigryw – hanes sy'n anodd ar adegau. ‘Mewn undeb mae nerth’ ydy un o'n dywediadau mwyaf angerddol ni gan ein bod wedi dioddef efo'n gilydd fel cenedl.

“Mae pobl fy nghenedlaeth i yn holi'n aml pam na wnaethon ni ddysgu am y straeon yma yn yr ysgol, felly mae'n wych gweld plant yma yn yr Amgueddfa Lechi heddiw yn cymryd rhan yn straeon eu gorffennol ac yn deall sut mae'r hanes hwnnw wedi creu yr ardal fel y mae hi erbyn heddiw.”

Mae Diwrnod y Llyfr yn ddathliad byd-eang, ac mae dros 100 o wledydd ar draws y byd yn ei ddathlu drwy hyrwyddo manteision darllen i bobl o bob oed. Yn ôl ymchwil, gall darllen gael effaith sylweddol ar lwyddiant addysgol plant, ac mae annog plant a phobl ifanc i ddarllen yn bwysicach nag erioed.

Atgofion o Chwarel Dinorwig (parhad)

Byddai llawer o'r hen chwarelwyr yn cael gwaith ysgafn i ddiweddu eu cyfnod yn y chwarel. Byddai ambell un yn llunau clwt peilio, arall i dwtio ffordd haearn lle'r elai injan a hwy hefyd fyddai yn gwneud negeseuon i'r swyddogion i'r Offis Fawr gan ddod a newyddion o'r pentref. Un da am stori felly oedd Meic Wil Fôn. Cofiaf yn dda y bore hwnnw yn 1939 pan welais ef yn cerdded drwy'r felin gan ostwng ei ddwylo ar bawb mewn ystum o anobaith. Daeth at ein wal a dywedodd

“ Mae hi ar ben – mae hi'n dân yn Poland”

O hynny ymlaen dechreuodd chwalfa yn y chwarel. Aeth nifer o'r hogiau oedd yn perthyn i'r Territorials yn fuan iawn o'r chwarel wedyn ac yna yr oedd pawb ohonom

yn disgwyl gŵys. Cefais innau hi i fyned i Wrecsam ar y Llun Diolchgarwch canlynol. Anghofiaf i ddim y dyddiau diwethaf rheini yn y chwarel. Roedd pawb yn glên wrthyf. Deuai cynghorion sut i gadw'r enaid gan y blaenoriaid a sut i osgoi'r bwledi ac i osgoi pob perygl gan yr hen sowldiws. Llawer un yn dymuno'n dda yn swil ac yn dawel gan stwffio ryw swlltyn i'm llaw. Ceisiais innau argraffu wynebau'r felin ar fy meddwl – yn eu waliau am y gwyddwn nas gwelwn hwy felly byth wedyn ac fod diwedd cyfnod wedi dod.

Dychwelais ymhen saith mlynedd bron a gwelais y newid. Yr oedd llawer o'r hen fargeinion phonciau wedi darfod a rybiau wedi eu cau ac fel y crebwyllais bu'r rhyfel

yn derfyn ar y chwarel fel y cofiwn i hi. Yr oedd y rhan fwyaf o'r hen wynebau ar goll yn y felin fawr. Yn wir fu hi byth yn llawn wedyn. Bum minnau'n meddwl am fynd ar gwrs byr i'r Coleg Normal ym Mangor ond rhywsut roedd tynfa'r chwarel yn gryf ynof a theimlwn y buaswn yn troi fy nghefn ar grefft a chymdeithas fy nhad a'n nheidiau ac felly arhosais yn y chwarel hyd ei diwedd.

Cyfnod arall yw hwnnw pan oeddwn yn gallu edrych arni o safbwynt swyddog a'r olwyn yn troi i mi chwilio am ddadleuon gosodwr a hogi fy meddwl ar gyfer dadleuon chwim a fraeth 'yr hen deulu'.

Collodd yr iaith Gymraeg eirfa gyfoethog pan edwinodd chwareli yng Nghymru.



Asesiad a thriniaeth arbenigol a fforddiadwy ar agor nawr.

Specialised and affordable assessment and treatment available.

Cyslltwch am fwy o fanylion
Contact for further information:

Facebook: @ffisioeryriphysio

Ebost / E-mail: info@ffisio-eryri-physio.co.uk

Ffôn 07387390465

Canolfan Ddringo Beacon Climbing Centre

Stâd Diwydiannol Cibyn Industrial Estate

Caernarfon. LL55 2BD

www.fffisio-eryri-physio.co.uk



Royal Victoria Hotel LLANBERIS

www.theroyalvictoria.co.uk

Dathliadau • Achlysuron Arbennig • Cynadleddau
Pwyllgorau • Bwydlen Bar • Cinio Dydd Sul
• PRIODASAU •

Ffôn- 01286-870253
enquiries@theroyalvictoria.co.uk

The ROYAL VICTORIA HOTEL
Snowdonia

Eglwys Santes Helen



Noson Jin Fe gynhaliwyd noson jin lwyddiannus a phoblogaidd dros ben yn Neuadd yn Eglwys nos Wener, Tachwedd 8fed. Da oedd gweld cefnogaeth ardderchog i'r noson. Roedd nifer o stondinau yn gwerthu anrhegion Nadoligaidd a stondinau gan ddistyllfeydd Aber Falls a Dinorwig, a chafwyd adloniant gwych gan Bwncath. Diolch yn fawr i bawb a gefnogodd y noson a chyfrannu tuag at wobrau y raffl. Gobeithir cynnal noson debyg eto yn y dyfodol.

Diolch Carai swyddogion yr Eglwys ddiolch i bawb am gefnogi y gwahanol weithgareddau a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn. Mae yna dros £700 wedi ei rannu i wahanol sefydliadau lleol.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda a bendithiol i bawb.

Gwasanaethau'r Nadolig

Naw Llith a Charol Fe gynhaliwyd Gwasanaeth Naw Llith a Charol Undebol fore Sul, Rhagfyr 8fed, gydag Eglwys St Mihangel Llanrug a Chapel Brynrefail yn bresennol. Roedd yn wych cael cyd-addoli a da oedd gweld cynulleidfau luosog yn bresennol. Gobeithir yn y dyfodol gynnal mwy o wasanaethau ar y cyd. Fe ddarllenwyd tri o'r darlleniadau gan wahanol aelodau o'r dair Eglwys.

Bydd hefyd Garolau o amgylch y goeden ac Eglwys Agored wedi bod yn rhan o ddathliadau yr Ŵyl.

Noswyl y Nadolig, Rhagfyr 24ain

- 11yb: Gwasanaeth Preseb a'r gyfer Plant a theuluoedd

- 9yh: Cymun y Nadolig mewn goleuni kannwyll

Estynnir Croeso cynnes i bawb i'r gwasanaethau yma, dewch â ffrind!

Dydd Sul, Rhagfyr 29ain

10yb: Gwasanaeth Cymun Bendigaidd Undebol i'r fro yn Santes Helen.

Pwyllgor Neuadd Bentref

Marathon Eryri Dymunir diolch i Bwyllgor y Marathon am y gydnabyddiaeth am stiwardio ym Mhen y Pas gyda'r elw yn mynd tuag at y gost o redeg ein Neuadd Bentref.

Edrychwn ymlaen at ddathlu'r Nadolig ar y cyd â phlant yr Ysgol bawn Mercher, Rhagfyr 19, am 2.00. Mynediad £2. Bydd cyfle i ganu'r Hen Garolau a chael paned a mins pei. Bydd raffl ar werth hefyd. Atgoffir aelodau'r Clwb Cant



ei bod yn amser adnewyddu'r aelodaeth ddechrau Ionawr gyda chroeso mawr i aelodau newydd am £6 y flwyddyn. Cynhelir y Cyfarfod Blynnyddol ar Ionawr 20fed am 7.00 yn yr Ystafell Gymuned.

Diolch i bawb fu'n barod i gefnogi gweithgareddau codi arian yn 2019.

Ysgol Sul Undebol Bosra Dymunir diolch i Sioned a Sharon am gynnal yr Ysgol Sul ar Ragfyr 1af a'r plant yn amlwg wedi mwynhau eu hunain yn fawr.

Ar Ragfyr 8fed aeth nifer o blant a'u rhieni ac Anti Ann i Lanberis i weld Siôn Corn yn safle y Rheilffordd. Bu'r tywydd yn garedig wedi storm dydd Sadwrn a dymunir diolch i Siôn Corn am ei eiriau caredig i bob plentyn. Diolch hefyd i'r corachod annwyl a phrysur. Bu'n fore h nod o gymdeithasol. Diolch o galon i Anti Fiona am drefnu y cwbl. Wedi stori enwog Carol y Nadolig gan Charles Dickens, cofiwch wyllo'r stori ar y teledu

dros y Nadolig.

Hip Hip Hwre mae Anti Liz wedi cael ei anrheg Nadolig gorau, sef clun newydd, a hynny wedi disgwyl am hir amser. Cofion annwyl atoch.

Bydd yr Ysgol Sul yn ailgychwyn fore Sul, Ionawr 12fed, 2020. Croeso i blant o 4 oed i fyny ymuno â ni.

Diffibrilyddion Mae pedwar diffibriliwr o gwmpas y pentref erbyn hyn. Bydd cyfres o gyfarfodydd yn cael eu cynnal yn y Neuadd Gymuned i egluro sut i ddefnyddio'r peiriant a sut i roi CPR pan fydd angen. Mae croeso i unrhyw un droi i fyny i unrhyw un o'r cyfarfodydd hyn:

Ionawr 9fed am 7.00yh

Ionawr 16 am 7.00yh

Ionawr 23 am 8.99yh

Ionawr 30 am 1.30 y pnawn.

Dymuniadau Gorau Nadolig Llawen i bawb yn y pentref ynghyd â phopeth da yn y flwyddyn 2020.

Y tymor canu plygain

John Bryn Williams o Gricieth yw’r awdur. Bu’n gyfreithiwr yn Harlech a Phorthmadog cyn ymddeol. Ysgrifennodd nifer o erthyglau yn 'Llais Ardudwy' ar gynnwys Caneuon Ffydd. Rydym yn ddiolchgar am ganiatad i gyhoeddi un o'r erthyglau rheini.

Mae’r plygain yn parhau i fynd yn unol â’r hen galendr fel ag yr oedd cyn 1752, bron i wythnos ar ôl ein cyfrif ni heddiw. Felly, mae’r tymor canu plygain yn para hyd ganol mis Ionawr. Mae’n braf gallu dweud fod y traddodiad nid yn unig yn parhau ond hefyd yn ffynnu. Hanner can mlynedd yn ôl ni chynhelid Plygeiniau ond mewn ychydig o ardaloedd yng nghanolbarth Cymru, yn bennaf yn Nyffrynnoedd Banwy, Dyfi a Tanat, ond erbyn heddiw maent wedi lledaenu dros Gymru ac yn adennill eu bri.

Ceir ychydig o’r hen garolau plygain yn y casgliad Caneuon Ffydd. Mae un ohonynt â chysylltiad uniongyrchol ag ardal Ardudwy sef rhif 473, “Roedd yn y wlad honno fugeiliaid yn gwylio eu praidd rhag eu llarpio’r un lle; daeth angel yr Arglwydd mewn didwyll fodd dedwydd i draethu iddynt newydd o’r ne”

Eiddo John Richards neu Siôn Ebrill â rhoi iddo ei enw barddo, yw'r garol honl. Ganwyd ef yn Nyffryn Ardudwy yn 1745 a bu farw mewn henaint teg yn 1836. Ceir ei hanes yn llyfr Odlau Moliant o eiddo’r diweddar Emrys Jones, Cricieth ynghyd â llawer o’i waith. Yn ardal Llanbedr, Dyffryn Ardudwy y treuliodd lawer o’i oes.

Mae’r syniad o bechod a chosb yn ymddangos lawer iawn yng ngwaith Siôn Ebrill fel y cawn weld.

Canodd Siôn Ebrill fel llawer o feirdd ei oes garolau plygain, carolau Pasg, emynau ac englynion. Cawn ganddo gerdd i ddiolch am adferiad iechyd a cherddi lleol eu natur.

Ond am y garol y cofir Siôn Ebrill heddiw. Dau bennill allan o’r wyth gwreiddiol a gawn yn Caneuon Ffydd a chadwyd allan y byrdwn i’w ganu ar ôl pob pennill. Mae rhai o’r hen garolau yma yn hirfaith ac fe fyddid yn eu canu yn yr eglwysi hyd doriad gwawr. Cymharol fyr yw’r garol yma felly ond go brin y carai carolwyr heddiw ei chanu yn ei chrynswth.

Mae yna dipyn o ddiwinyddiaeth yma fel sydd o fewn llawer o’r hen garolau - fel gwelwn wrth i Siôn Ebrill grybwyll fod Mair yn magu nid yn unig ei mab ond y sawl oedd yn bod cyn creu’r byd, “Rhwn ydoedd cyn bydoedd yn bod.”

Cawn lawer o’r Hen Destament yn y garol; hanes y sarff yng ngardd Eden a hanes Arch Noa hefyd, “Arch Noa pan ydoedd uwchlaw y mynyddoedd Ni chadwodd o’r dyfroedd ond wyth, Crist ydyw’r arch nerthol rhag dilyw tragwyddol, Bydd bywiol a llesol y llwyth.”

Mae yna erchyllterau mawr trwy’r penillion a gollwyd. Adroddir creulondeb Herod a’i ymgais i ladd y baban Iesu: “Rhoes Diafol yng nghalon yr hen Herod greulon Am ladd y mab ffyddlon heb ffael, Ond Mair gyda’i phlentyn i’r Aifft aeth yn sydyn Lle methodd y gelyn ei gael.”

Ac mae yma erchyllterau gwaeth fyth. Anogir pawb i ffoi i’r amddiffynfa fel y ffodd Lot o ddinas Sodom yn yr hanes yn Llyfr Genesis rhag y Tàn Mawr, “Fe lÿsg yr anuwïol mewn ffwrnais uffernol Lle bydd yn dragwyddol eu gwae, Mewn carchar diddiwedd, holl ddrysau trugaredd Yn caffael o’u cyrraedd eu cau.”

Fe welwch efallai nad yw’r garol yn y gwreiddiol yn hollol addas ar gyfer gwasanaeth Nadolig yr ysgol gynradd lle mae llawer o’r plant yn ddigon ofnus hefo Siôn Corn heb sôn am ddarluniau graffig yr hen Siôn Ebrill o boendod hyd dragwyddoldeb. Ond cofiwn mai adlewyrchu cred gwerin ei oes oedd y bardd.


Ond nid yw Siôn Ebrill yn anghofio darlunio’r gwynfyd fydd ar gael i’r ffyddlon a’r da yn y byd a ddaw. “Yn rhyddion o’u cystudd yn canmol eu Harglwydd Yn cario hardd balmwydd bob un, Mewn teyrnas uwch daear fel haul yn dra hawddgar Heb garchar na galar na gwŷn.”

Mae’r byrdwn yn ddiddorol. Yn gyntaf oll, mae’n dyddio’r garol a chawn wybod yn sicr pryd y canwyd hi gyntaf, “Mae oedran ein Harglwydd un mil a saith gan mlwydd Naw dengmlwydd a dwyflwydd yn dod.”

1792 felly! Mae gweddill y byrdwn yn weddi ar i Dduw amddiffyn ei eglwys a bendithio’r brenin a’r deyrnas gan gadw Pabyddiaeth ac anffyddiaeth draw. Roedd y cyfnod yn un digon peryglus, roedd y brenin newydd ei adfer ar ôl afiechyd meddyliol dwys a chwyldro mawr yn Ffrainc yn lladd cannoedd ac yn bygwth heddwch Ewrop i gyd. Gallwn fentro bod gweddi Siôn Ebrill yn ddiffuant iawn.

Rhif y dôn yw 397. Ni chlywais ganu’r garol ar unrhyw dôn arall. Mae hi yn gweddu i’r dim a lle ynddi i arafu a phwysleisio’r geiriau gan ddangos y cyffyrddiadau cynganeddol sy’n rhedeg trwy’r garol. Yn ôl y Cydymaith, fe gasglwyd yr alaw o ganu gŵr o’r enw Henry Williams, gwehydd o Rydyrarian, Llansannan yn 1910. Roedd Henry Williams yn un o gyndeidiau y canwr a’r digrifwr, Gari Williams. Y cerddor enwog Caradog Roberts [1878-1935] o Rosllannerchrugog drefnodd yr alaw fel y gwelwn ni hi yn y Caneuon Ffydd. Byddai yn chwith iawn ceisio canu’r garol ar unrhyw alaw arall.

Croesair



- Ar draws
- 1 Math o goeden Nadolig (6)
 - 4 Defnyddir hwn i addurno’r tŷ dros yr Ŵyl (5)
 - 8 Cerrig neu friciau wedi torri (5)
 - 9 Crasu (6)
 - 10 Ffrwd (4)
 - 11 Darnau bychain sy’n cael eu ffurfio wrth i rywbeth gael ei naddu (6)
 - 13 Gweler 2 i lawr
 - 15 Gwall (3)
 - 16 Enw cyntaf ‘reslar’ Cymraeg o fri (4)
 - 17 Y flwyddyn hon (5)
 - 18 Campau dwl (6)
 - 21 Budd (3)
 - 22 Awydd cryf am lwyddiant (8)
- I lawr
- 1 Dilynwyd un o’r rhain gan y doethion (5)
 - 2 a 13 ar draws, math o aderyn a gysylltir â’r Nadolig (5, 3)
 - 3 Llefain (4)
 - 5 Newid un chwaraewr am un arall (7)
 - 6 Mynd i’r dŵr i nofio (7)
 - 7 Gwyddor sy’n astudiaeth o’r ffordd y mae diwydiant a masnach yn cynhyrchu ac yn defnyddio cyfoeth (8)
 - 12 Gair i ddisgrifio hanes neu adroddiad celwyddog er mwyn pardduo cymeriad unigolyn (7)
 - 13 Iaith frodorol yr Alban (6)
 - 14 Suro (6)
 - 19 Datblygu (4)
 - 20 Prydferth (4)

Y Llongau Wnaeth Doi'r Byd A Hanes Cychod Hynod Llanberis

Ar un adeg, cyflogai'r diwydiant llechi yng Nghymru 17,000 o bobl gyda'r cynnyrch yn cael ei allforio i Awstralia a'r Americas. Credir mai'r Rhufeiniaid a ddechreuodd y cloddio am lechi yng Nghymru a'u defnyddio i doi caer Rufeinig Segontium, Caernarfon.

Ym mlynnyddoedd olaf y ddeunawfed ganrif fe gyfunwyd yr amrywiol chwareli ac adeiladu'r porthladdoedd pwrpasol cyntaf, fel un Caernarfon, i allforio llechi. Cludwyd y llechi i Lundain, Sbaen a Phortiwgal. Harbwr arall pwysig oedd Porthmadog gyda'r llechi yn cael eu hallforio i'r Almaen.

Cymru a'r Môr: 10,000 o Flynyddoedd o Hanes y Môr yw'r astudiaeth fwyaf cynhwysfawr erioed o hanes y môr yng Nghymru - a gymerodd dros ddegawd i'w ymchwilio a'i gynhyrchu.- ac mae'n cael ei gyhoeddi gan Wasg y Lolfa a'r pris yn £24.99.

Yn nyfroedd Llyn Padarn, Llanberis, cafwyd hyd i weddillion cwch o ddiwedd y ddeunawfed ganrif a suddodd wrth gludo llwyth o lechi. Cafwyd hyd i gwch arall o siap gwahanol ger gwely Llyn Peris hefyd o gyfnod Oes y Tuduriaid. Mae'r llyfr yn olrhain un o ganeuon môr 'Llongau Caernarfon' gyda bachgen ifanc yn sefyll ar y cei yn gwyllo'r llongau'n cychwyn am Ffrainc ac Iwerddon â llwythi o lechi o'r chwareli.

Mae'r gyfrol yn tyrchu i bob agwedd o gysylltiad Cymru â'r môr, o hanes cynnar i'r presennol: o archeoleg i baentiadau a barddoniaeth, o hanes morwrol i wyliau glan y môr.

Fe gafodd ei chomisiynu gan Gomisiwn Brenhinol Henebion Cymru mewn cydweithiad gyda Llyfrgell Genedlaethol Cymru, CADW, Amgueddfa Cymru, a'i hysgrifennu gan rai o haneswyr ac archeolegwyr mwyaf blaenllaw Cymru. Mae Cymru a'r Môr yn cynnwys hen ffotograffau archifol a ddaw yn bennaf o gasgliadau enfawr Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru ac Amgueddfa Cymru, ond hefyd o lyfrgelloedd o bedwar ban byd.

CYMRU A'R MÔR 10,000 O FLYNYDDOEDD O HANES Y MÔR



GOL. MARK REDKNAP, SIAN REES AC ALAN ABERG

COMISIWN BRENHINOL HENEBION CYMRU
ROYAL COMMISSION ON THE ANCIENT AND HISTORICAL MONUMENTS OF WALES

y Lolfa

Mae darganfyddiadau archeolegol o Gymru - gan gynnwys cychod o'r Oes Efydd, llongau Rhufeinig a'u llwythi, y llong ganoloesol o Gasnewydd a'r iot frenhinol o'r ail ganrif ar bymtheg Mary - yn tystio i hanes cyfoethog Cymru fel gwald fordeithiol.

Mae Cymru a'r Môr yn dod â'r cyfan yn fyw: llongau mawr y cefnfor, y llongau a fu'n gosod ceblau oedd yn cysylltu Cymru â gweddill y byd, yr llongau pleser, yr iotiau rasio a'r pierau glan môr, yn ogystal â'r dociau prysur oedd yn cyflenwedd llechi, glo, haearn a dur o Gymru i weddill y byd.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth bawb yn

WELDPAR
CYMRU WALES
CANOLFAN OFFER WELDIO
WAUNFAWR Ffôn: 650720



**NADOLIG LLAWEN
A BLWYDDYN NEWYDD DDA**

Oddiwrth Dylan A'r Staff
SHOP CHIPS TEGFAN
Y SGWÂR LLANRUG

(01286) 671211

**RHOSTIO
MOCHYN**

Gyda saws afal a stwffin mewn rholiau

**AR GYFER
POB
ACHLYSUR**

**DEWCS MAE
O'N FLASUS**

PARTION • PRIODASAU • PEN BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLIAU
CIG O FFERMYDD LLEOL
PARTION RHWNG 40-400!

Cysylltwch a

**John Brynafon
LLANRUG**

www.ydyncig.co.uk

675190 • 673188
Symudol- 07798 718188

SAMARIAID

Mae

Llinell Gymraeg

0300 123 3011

ar gael bob nos
rhwng
7.00pm ac 11.00pm

**HUW
OWEN**
**PLASTRWR
ADEILADWR LLEOL**
22 BLWYDDYN
O BROFIAD
Ffôn- 01286 677668
Symudol-
07940023159
Gladwyn Station Rd.
LLANRUG, Caernarfon
LL55 4AG
Eboet- lisa.huw@btinternet.com

DMM
CLIMB NOW WORK LATER

**Nadolig
Llawen**

**A BLWYDDYN
NEWYDD DDA**

Oddiwrth
BAWB yn

**DMM
LLANBERIS**

www.dmmwales.com

Y Calan a dechrau’r flwyddyn

(Ymddangosodd yr erthygl hon yn rhifyn Nadolig/Ionawr 1980/81 yng nghyfres “Yr Hen Dderwydd”, a ysgrifennai am draddodiadau a diwylliant gwerin)

Gyda dyfodiad Nos Calan a Dydd Calan deuai ail gyfnod pwysig y ‘Gwyliau’; yn bwysicach yn y gorffennol na’r Nadolig ei hun. Yn wahanol i ben-blwydd unigolyn, dyma ben-blwydd y gymdeithas gyfan. Dyma arwydd fod yn rhaid torri ymaith o ddigwyddiadau a helyntion y flwyddyn a aeth heibio ac edrych ymlaen i flwyddyn newydd a gobeithion newydd. Roedd yn ofynnol talu pob dyled cyn dydd Calan, ac yr oedd benthg (hyd yn oed benthg tân i oleuo kannwyll) ar y dydd hwnnw yn anlwcus.

Roedd ymddygiad dyn ar ddechrau blwyddyn yn arwydd o’i ymddygiad am y gweddill o’r flwyddyn, ac yr oedd yr hen bobl yn boenus iawn ynglŷn â gwahanol arwyddion yng nghymeriad dyn ar y diwrnod hwnnw. Roedd arwyddion y tywydd hefyd yn cael eu gwyllo a’u dadansoddi’n ofalus. Yr ymboeni hwn am lwc dda am weddill y flwyddyn sydd tu cefn i’r traddodiad o roi anrhegion ar ddydd Calan; o ddymuno’n dda i ffrindiau a chymdogion, ac o hel calennig.

Trosglwyddwyd llawer o draddodiadau ac arferion y Calan i Ddydd Calan Hen pan newidiwyd y calendr yn 1752. Roedd yn draddodiad gan ffermwyr mewn rhai ardaloedd i roi gwledd i’w cymdogion i ddiolch iddynt am eu cymorth yn ystod y flwyddyn a aeth heibio. Cafodd y wledd hon ei throsglwyddo i’r Hen Galan. Byddai rhai yn ymweld â mwy nac un fferm yn y dydd, gan gyrraedd yn y bore i bryd o fara a diod – pryd cyntaf y diwrnod. Byddai cinio o gig gŵydd a phwdin ar gael erbyn canol dydd, ac os deuai rhywun yn hwyr, roedd yn siwr o ryw faint o bwddin a digon o ddiod i’w yfed; fel arfer, diod wedi ei fragu gartref.

Roedd Dydd Gŵyl Ystwyll neu’r Serenwyl ar y 6ed o Ionawr yn ŵyl bwysig, yn enwedig yn y calendr eglwysig, gyda’i gysylltiadau â’r doethion. Roedd yr ŵyl hon yn bwysig am ddau

reswm.

Yn gyntaf, dyma ddiwedd cyfnod y ‘Gwyliau’ – distyll y Gwyliau yng ngolwg llawer, er bod dathlu yn parhau hyd Ddydd Gŵyl y Canhwyllau ar Chwefror yr ail. Ar Ddydd Gŵyl Ystwyll rhaid oedd cadw addurniadau’r Nadolig, llosgi’r uchelwydd a’r cyff Nadolig, a chadw’r lludw yn ofalus i’w roi ar y tir wrth blannu cnydau yn y gwanwyn.

Yn ail, dyma hefyd yr hen ddydd Nadolig yn dilyn y newid yn y calendr. Mewn rhai ardaloedd yng Nghymru roedd y Nadolig yn parhau i gael ei ddathlu ar y 6ed o Ionawr mor ddiweddar a chanol y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Roedd tri thraddodiad yn gysylltiedig â’r ŵyl hon yng Nghymru: Y Fari Lwyd, canu gwasael a chario’r dryw. Mae traddodiad y Fari lwyd yn fwy adnabyddus yn y de nag yn y gogledd, a chredir mai olion hen draddodiad paganaidd yw yn gysylltiedig â’r ceffyl. Rhialtwch o ganu, dawnsio, bwyta ac yfed sy’n gysylltiedig â’r gwasael – efallai mai dyma ben-llanw y ‘Gwyliau’. Roedd llawer o’r caneuon gwasael hyn yn grefyddol eu naws, ond y mae eraill yn dangos gwir bwrpas y cantorion a’r dawnswyr:

“Arfer y Nadolig yw
Rhodio’r nos lle byddo gwiw
I edrych ple bo diod dda...”

Mae’n debyg nad oedd yr arfer yn golygu dim mwy nag esgus i hawlio bwyd a diod yn gyfnewid am gân a dawns.

Ychydig a wyddom am y trydydd traddodiad o gario dryw bach o amgylch y tai ar rhyw fath o elor bren fechan – ond gallai fod yn rhan o draddodiad y Fari lwyd yn Sir Benfro hyd tua canrif yn ôl, er bod adar tô yn cael eu defnyddio yn hytrach na dryw. Beth tybed oedd pwrpas yr holl ddefod?

Erbyn heddiw, anghofwyd llawer o draddodiadau’r ‘Gwyliau’ a daeth arferion newydd yn gysylltiedig â hwy: Sion Corn a’i glogyn coch yn lle’r Fari Lwyd a’i chynfas wen, a’r Robin Goch ar gerdyn Nadolig yn hytrach na dryw bach ar elor bren.

Clwb Ffermwyr Ifanc Caernarfon

Yn sicr, mae’r clwb wedi bod yn hynod brysur y mis hwn. Yn dilyn ein nosweithiau hwyliog a’r nos Lun, creu elw o swm uchel yng nghaffi’r Eisteddfod Sir ym Mhorthmadog, a dod yn fuddugol yn y Ffair Aeaf Sir yn Nhŷ Newydd Llandegai.

Yn ystod ein nosweithiau, cawsom wahoddiad i ymuno â Chlwb Dyffryn Nantlle, lle cynhaliwyd noson o gemau gwirion. Yn wir i chi, roedd hi’n noson llawn chwerthin ac yn braf gweld wynebaw cyfarwydd y Sir eto. Yn ogystal â hyn, cawsom ymweld â Cartio Môn ger Bodedern gydag aelodau cystadleuol iawn. A oes Lewis Hamilton nesaf yn bodoli yn y clwb? Cynhaliwyd hefyd noson gan Burman’s Martial Arts Llanberis, lle dysgwyd nifer eang o sgiliau hunan amddiffyn gwerthfawr iawn.

Fel clwb, ein tro ni oedd i westeio caffi’r Eisteddfod ym Mhorthmadog gyda help llaw gan Glwb Dyffryn Madog. O fwynhau gwyllo’r aelodau cystadleuol ar y llwyfan, i dorri chwys yn gwerthu paneidiau ar ôl paneidiau, cawsom swm arian gwerth chweil o oddeutu £300!! Llongyfarchiadau enfawr i Glwb Llangybi am ddod yn fuddugol yn y cystadlu.

Hoffai’r clwb ddiolch yn fawr iawn i Huw Bush a Michael Kent am eu caredigrwydd i’n hymarfer tuag at y Ffair Aeaf Sir. Yn ogystal â Geraint a Myfanwy Harper am westeio’r Ffair Aeaf. Yn amlwg, mae’r holl waith caled wedi talu gan fod Clwb Caernarfon wedi cael llwyddiant ysgubol gyda 89 o bwyntiau.

Canlyniadau:

1af Fferm Ffactor - Elis a Bedwyr Jones

2il Arddangosfa Ciwb

1af Trin Cyw Iâr - Gwyn Jones

3ydd Barnu Carcas (dan 16) – Bedwyr Jones

3ydd Barnu Carcas (dan 18) – Non Griffith

1af Barnu Carcas (dan 21) – Sioned Wyn Jones

1af Tîm Barnu Carcas - Caernarfon

1af Barnu Wŷn Tew (dan 16) - Bedwyr Jones

2il Barnu Wŷn Tew (dan 16) – Elis Jones

1af Barnu Wŷn Tew (dan 18) – Elan Jones

2il Barnu Wŷn Tew (dan 18) – Non Griffith

1af Barnu Wŷn Tew (dan 21) – Elen Jones

2il Barnu Wŷn Tew (dan 21) – Sioned Wyn Jones

3ydd Barnu Wŷn Tew (dan 21) – Wil Parry

1af Tîm Barnu Wŷn Tew - Caernarfon

1af Barnu Gwartheg Biff (dan 16) – Bedwyr Jones

2il Barnu Gwartheg Biff (dan 18) – Elan Jones

3ydd Barnu Gwartheg Biff (dan 18) – Non Griffith

1af Barnu Tîm Gwartheg Biff - Caernarfon

Felly, ar y cyfan, mis llwyddiannus iawn gyda nifer o gystadlaethau i ddod. Diolch yn fawr iawn!

Elliw Jones - Ysgrifenyddes Clwb Ffermwyr Ifanc Caernarfon

BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts
Ffôn: 870580



Cyfarchion Nadolig Dymuna Euronwy Roberts, 8, Trem Eilian, Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda i aelodau'r teulu, ffrindiau a chymdogion gan na fydd yn anfon cardiau Nadolig eleni.

Yr Eglwys Bresbyteraidd

Gwasanaethau Ail Sul yr Adfent Fore Sul, Rhagfyr 8fed, gwahoddwyd yr aelodau i ymuno yng Ngwasanaeth Blynnyddol Naw Llith a Charolau yn Eglwys y Santes Helen, Penisarwaun. Darllenwyd tair o'r llithoedd yn ystod y gwasanaeth gan Gwyn Hefin Jones, Lowri Prys Roberts a Dafydd Ellis. Gan barhau yn naws hyfryd y gwasanaeth hwn yn ein oedfa hwyrol, cafwyd cenadwri arbennig gyda chymhwysiad cyfoes gan y Parch Hugh Pritchard, Llangefni, wedi ei seilio ar gymal o hanes y Geni yn ôl Efengyl Luc – "am nad oedd lle iddynt yn y llety". Cafwyd dwy oedfa fendithiol ar y Sul arbennig hwn yng nghyfnod yr Adfent.

Gwerthfawrogwn y cydweithio fu yn ystod 2019 gyda addoli ar rai achlysuron yn Santes Helen am 11 y bore a Brynrefail am 5 yr hwyr. Trefnwyd eisoes i gydaddoli mewn oedfaon arbennig unwaith eto yn ystod 2020.

Ar derfyn blwyddyn arall o addoli, mae ein cofion at bawb o'n haelodau a'n cydnabod yn y pentref – rhai yn gaeth i'w cartrefi, eraill wedi derbyn triniaeth mewn ysbytai ynghyd â'r profedigaethus yn ein plith. Dymunwn i chwi Nadolig a Blwyddyn Newydd lawn bendithion.

Sefydliad y Merched Cynhaliwyd y Cyfarfod Blynnyddol yng nghyfarfyddiad mis Tachwedd. Cafwyd adroddiad ariannol gan ein Trysoryddes, Vera Price, a rhoddwyd adroddiad llawn o waith y flwyddyn gan yr Ysgrifynyddes, Carol Houston. Rhoddwyd gair o ddiolch gan y Llywydd, Pat Jones, am gefnogaeth a gweithgarwch yr oll o'r aelodau yn ystod 2019. Aethpwyd ymlaen i ethol swyddogion am 2020 a phleser oedd croesawu y swyddogion presennol i ymgymryd â'r gwaith unwaith eto. I ddiweddu'r noson dan arweiniad y Llywydd arddangoswyd sut i greu addurn o Gorrach Nadolig. Cafwyd noson hwyliog yn dilyn a phawb yn creu ei gorrach addurnedig ei hun.

Bydd Cinio Nadolig y gangen yng Ngwesty Gwynedd, Llanberis, wedi ei fwynhau cyn i chwi ddarllen yr adroddiad hwn ac edrychwn ymlaen at flwyddyn lwyddiannus arall o weithgareddau amrywiol a diddorol yn ystod 2020.

Yr Eglwys Bresbyteraidd

Oedfaon Ionawr 2020 am 5 yr hwyr

5: Parch Marcus Robinson – Gweinidog

12: Cyfarfod Gweddi Dechrau Blwyddyn

19: Parch Gerallt Lloyd Evans, Llangristiolus

26: Mr Dafydd Iwan, Caeathro

CWMYGLO



Cyfarchion Nadolig Dymuna Hilda, Moranedd, Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda i'w theulu, ffrindiau a chymdogion. Ni fydd yn anfon cardiau Nadolig eleni.

Cyfarchion y Tymor Dymuna Iris Rowlands, Glan'rafon, Nadolig Dedwydd a Blwyddyn Newydd Dda i'w theulu, ffrindiau a chymdogion gan na fydd yn anfon cardiau eleni.

Undeb y Mamau Cyfarfu'r aelodau yn festri Eglwys St Mair bnawn Mawrth, 19 Tachwedd. Dechreuwyd gyda gweddïau gan Caroline Jones. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth chwe aelod. Atgoffwyd yr aelodau i fynd â'r bocsys glas yn ôl erbyn diwedd y flwyddyn a thâl aelodaeth o £19 erbyn Ionawr 2020. Trafodwyd y paratoadau ar gyfer y gwasanaeth Canmlwyddiant yn Eglwys St Mair ar 24 Tachwedd. Caroline i gario'r faner gyda Gwen a Carys bob ochr. Bu Gwasanaeth Carolau Adfent yn Eglwys Llanbeblig ar 1af o Ragfyr a bu'r Cinio Nadolig ar 17 o Ragfyr am un o'r gloch yn Bontnewydd. Diolchwyd i Pauline Large a Caroline Jones am y baned a'r mins pei. Enillwyd y raffl gan Valerie Griffith.

Cynhaliwyd y Gwasanaeth Canmlwyddiant ar 24 Tachwedd, union 100 mlynedd i'r gwasanaeth cyntaf i dderbyn aelodau Plwyf Llanbeblig yn Eglwys St Mair yn 1919.

Yn ystod yr haf cynhaliwyd gweithgareddau a, gyda'r arian a gasglwyd prynwyd canhwylbren Adfent a chanhwylau olew. Cysegrwyd y rhain yn ystod y gwasanaeth Canmlwyddiant a byddant yn cael eu goleuo yn y Gwasanaeth Adfent am y tro cyntaf.



Cysylltwch â Dioni i siarad am eich bwthyn gwylia
Gwion Llwyd 01341 247 200 gwion@dioni.co.uk

BUSNES LLEOL...CWSMERIAID BYD EANG

Cyngor Cymuned Llanrug Tendr torri gwair

Mae Cyngor Cymuned Llanrug yn gwahodd personau neu gwmnïau cymwys i ddatgan diddordeb a / neu dendro am dorri gwair 5 maes chwarae, mynwent a chynnal a chadw llwybrau cyhoeddus.

Am ragor o wybodaeth ynghyd â ffurflen dendro, ewch i wefan y cyngor www.llanrug.cymru neu cysylltwch â Chlerc y Cyngor, Mr Meirion Jones ar 07769 112875 neu drwy e-bost at clerc@llanrug.cymru. Dylai pob tendr fod i fewn erbyn 17:00 17 Ionawr 2020.

ARVONIA



- ✓ Gwyliau cerbyd moethus Prydeinig a Chyfandirol.
- ✓ Cerbydau moethus ar gael ar gyfer llogi preifat.
- ✓ Adran teithiau grŵp.
- ✓ Tocynnau rhodd.
- ✓ I weld ein holl deithiau a chynigion arbennig ewch i'n gwefan.

01286-675175 www.arvon.co.uk





O’r Cynghorau

Cyngor Cymuned Llanberis

COFNODION CYFARFOD MIS TACHWEDD 2019:

Cofnodion Cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd yn Y Ganolfan, Llanberis, nos Fercher y 13eg o Dachwedd, 2019 am 7.30 y.h.

1 PRESENNOL ac YMDDIHEURIADAU:

Ward Padarn: Rhys ap Gwilym (Cadeirydd), Gwilym Evans, Olwen Gwilym, Bethan Holding, Heather L. Jones, Cyng. Kevin Morris Jones, Helen Sharp,

Ward Peris: Iola Owen. Hefyd yn bresennol: Dei Tomos (Clerc).

Ymddiheuriadau: Iwan Harding, Trystan Thomas.

2 DATGAN BUDDIANT:

Cofnodir, os yn berthnasol, o dan y gwahanol benawdau.

3 CADARNHAU COFNODION:

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod nos Fercher y 9fed o Hydref, 2019 fel rhai cywir .

4 MATERION YN CODI O’R COFNODION:

1. Y Wefan:

Roedd y gwaith cyfieithu ar y gweill.

2. Mynwent Eglwys Sant Peris:

Cafwyd eglurhad pellach i gais yr Eglwys yng Nghymru i ddiddymu perchnogaeth y Cyngor o ran o dir y fynwent. Mewn llythyr eglurodd Pennaeth y Gwasanaethau Eiddo fod peth o dir yr eglwys wedi ei gam gofrestru yn y gorffennol gan Y Corff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru (EC) pan gymerwyd prydles 999 mlynedd ar y fynwent newydd, (rhan gynharaf Mynwent y Cyngor). Y bwriad oedd diddymu hawl y Cyngor ond ni wnaed hynny. Cytunwyd y dylid ildio'r hawl gan mai dyna oedd yn gwneud synnwyr, a chytunwyd i anfon at y cynrychiolydd yn nodi fod y Cyngor am wneud hynny.

Felly pan fydd EC yn cofrestru'r tir gyda'r Gofrestrfa Tir fydd y Cyngor hwn ddim yn gwrthwynebu hynny.

3. Wal y Fynwent:

Adroddwyd na chafwyd pris, hyd yma, am ail adeiladu trydydd rhan y Wal.

4.Coed a Goleuadau Nadolig:

Adroddodd y Clerc iddo archebu’r coed ‘Dolig arferol a byddant yn cyrraedd ar y 29ain o’r mis, bydd cost y cludiant wedi ei rannu gyda Cyngor Waunfawr. Penderfynwyd codi’r goeden ar y bore Sul canlynol (Rhagfyr 1af am 10) a bydd angen gwirfoddolwyr!

Ers y cyfarfod diwethaf roedd y Clerc wedi trafod anghenion goleuo’r pentref gyda DO y trydanwr. Cytunwyd i brynu rhai goleuadau newydd ac i roi golau dros y stryd ger y Banc. Cytunwyd hefyd i osod seren a golau ar dŵr eglwys Llanberis, bydd un o deuluoedd yr eglwys yn prynu’r seren, ac i oleuo’r eglwysi fel llynedd, Eglwys y Nant ar nos Sul yr 8fed o Ragfyr, noson y Canu Carolau ac eglwys Llanberis ar nos Sadwrn y 14eg pan gynhelir Gŵyl Oleuadau yn lle’r Ffair Nadolig a’r Orymdaith arferol. Bydd angen i Gyngor Gwynedd (CG) roi blychau trydan ar bolion pen dwyreiniol y pentref os am fwy o olau i’r cyfeiriad hwnnw. Doedd dim modd gwneud hynny mewn pryd eleni felly awgrymwyd trafod gyda EB i weld oedd modd goleuo rhai o’r coed ger Dôl y Goeden fel y llynedd.

Cafwyd cais gan Hwb Eryri am gyfraniad tuag at Noson Tân Gwyllt nos Galan oddi wrth Hwb Eryri. Penderfynwyd holi beth fyddai cyfanswm y gost ac ymgynghori ar ôl derbyn y wybodaeth ar WhatsApp. Clustnodwyd swm o arian ar gyfer dathliadau Nadoligaidd.

5. Gosod Tai:

Cafwyd ymateb i’r llythyr yn holi am bolisi gosod cartrefi Adra (Tai) Cyfyngedig. Yn ôl y llythyr a dderbyniwyd dywedwyd y gosodir tai yn unol a Pholisi Tai Cyffredin Gwynedd, sy’n rhan o gyfrifoldeb statudol CG. Mae’r cyfan yn seiliedig ar sustem pwytntiau, a’r pwytntiau yn cael eu dyrannu yn unol ag angen. Yn y llythyr dywedwyd bod y polisi wedi ei adolygu a bod yr un newydd i ddod i rym ar Galan Ionawr 2020 ar ôl iddo gael ei gymeradwyo gan Gabinet CG yn yr haf. Yn hwn bydd blaenoriaeth eto yn unol ac angen am dŷ cymdeithasol, ond “bydd ffafiaeth yn cael ei roi i ymgeiswyr sydd hefo cysylltiad o 5 mlynedd neu fwy a’r gymuned leol y mae’r eiddo’n cael ei osod, 5 mlynedd ydi’r ffin gyfreithiol o ran cysylltiad lleol. Bydd mwy o ffafiaeth o fewn y polisi newydd i’r rhai sydd wedi cofrestru am yr amser hiraf hefyd.”

Ymhellach dywed y llythyr bod “... sicrhau bod ymgeiswyr lleol hefo gwell siawns o sicrhau eiddo cymdeithasol”, ond mae’r pwyslais yn dal ar “wir angen”. Croesawyd ysbryd y llythyr gan obeithio y gwelir mwy o drigolion a chysylltiadau lleol yn derbyn cartrefi yn Llanberis yn y dyfodol.

5 GOHEBIAETH:

1. CG - Meysydd Chwarae:

Llythyr yn holi a fyddai gan y Cyngor hwn ddiddordeb trafod dyfodol rheolaeth meysydd chwarae y plwyf. Roedd peth o’r wybodaeth yn ddiffygiol ond ar ôl cysylltu â CG gwelwyd mai caeau chwarae Cae Gas, Stryd Goodman; cae Blaen y Ddôl a cae chwarae Nantperis oedd dan sylw. Mae sôn am ystyried cymryd cyfrifoldeb neu gweld a oes grŵp neu grwpiau cymunedol cofrestredig awydd gwneud hynny. Cytunwyd bod diddordeb a phenderfynwyd estyn gwahoddiad i un o swyddogion y Cyngor i ddod i un o gyfarfodydd y Cyngor ar ddechrau’r

flwyddyn. Nodwyd y byddai’n rhaid i’r caeau fod mewn cyflwr safonol cyn ystyried eu derbyn, ac fel yn achos y cae Ger y Llyn dylid ystyried diogelwch offer a phwy fyddai’n gyfrifol am sicrhau hynny. Ar hyn o bryd CG sy’n adolygu diogelwch y cae hwnnw er mai y Cyngor hwn sydd a’r gofal amdano.

2. Cyngor Cymuned Llanrug:

Llythyr yn holi a fyddai gan y Cyngor hwn ddiddordeb cyfrannu’n ariannol tuag at Glwb Ieuenctid Llanrug oherwydd bod nifer fechan (3) o bobl ifanc Llanberis yn ei fynychu. Penderfynwyd nad oedd arian yn y gyllideb at hynny a gyda nifer mor fychan nad oedd hi’n addas i wneud hynny chwaith.

3. CG - Llinellau Melyn:

Croesawyd gwybodaeth bod llinellau melyn dwbl i’w gosod bob ochr i’r ffordd sy’n rhedeg ar hyd cefn Ystâd Ddiwydiannol y Glyn. Mae’r Cyngor hwn wedi nodi bod angen llinellau dwbl i wahardd parcio yma, ers tro.

4. CG - Cau Ffordd - Marathon Eryri:

Roedd rhybudd wedi ei dderbyn fod bwriad i gau nifer o ffyrdd adeg Marathon Eryri. Mae hynny yn arferol ond a’r marathon wedi ei chynnal roedd amryw o’r farn i’r ffyrdd fod ar gau yn llawer rhy hir eleni. Bu y Stryd Fawr ar gau tan 6. Doedd dim synnwyr yn hynny a dim ond rhyw ddyrnaid bychan o redwyr ar ôl, a’r rhedwyr yn gymysg a cheir mewn ardaloedd eraill yn ôl tystiolaeth y rhaglen deledu y noson ganlynol. Holwyd hefyd a oedd synnwyr bod cynifer yn rhedeg yn y ras, onid oedd hi’n amser cyfyngu ar y niferoedd. {Holwyd a oedd gwirionedd yn y ffaith bod 3,000 yn y ras hon a 600 yn Ras yr Wyddfa, gan gwestiynu onid oedd hynny yn llawer gormod?} Credir fod y rasyys yma yn ymyrryd gormod â bywyd y pentref a’i drigolion.

5. Un Llais Cymru:

Cafwyd gwybodaeth bod disgwyl i gynghorau cymuned a tref o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 Rhan 1 - Adran 6 - y Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau ystyried yr amgylchedd a cheisio cynnal ac ehangu bioamrywiaeth cyn belled a bod hynny yn gyson â chyflawni eu swyddogaethau’n briodol gan hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau drwy wneud hynny.

Dywedir hefyd bod rhaid ‘cyhoeddi adroddiad erbyn diwedd 2019’ i’r perwyl yma yn nodi’r hyn y mae’r awdurdod cyhoeddus (y cyngor hwn) wedi ei wneud i gydymffurfio a’r ddyletswydd, ac yna fe’i cyhoeddir bob tair blynedd wedi’r dyddiad hwn.

Adroddwyd nad oes llawer y gall cyngor fel hwn ei wneud oni bai ei fod yn berchen tir. Gan fod y mwyafrif o diroedd angen gofal a gwasanaeth, oherwydd eu bod yn gaeau chwarae cyfyngir ar hynny. Serch hynny yn y gorffennol mae’r Cyngor hwn wedi rhoi cefnogaeth ariannol i Gyfeillion Cae’r Ddôl ac i Grŵp Pentref Taclus. Ystyriwyd yr amgylchedd hefyd fel rheswm dros wrthwynebu cais cynllunio yn ddiweddar. Yn ogystal roedd y Cyngor yn barod iawn i gydweithio a CG mewn perthynas a Coed Doctor. Nid ar y Cyngor hwn y mae’r bai na ddaeth dim o’r cynllun hwnnw.

6. BT:

Roedd BT yn ymgynghori ar gau nifer o gioscs ffôn. Er nad oedd yr un yn y plwyf hwn roedd na 2 yn benodol mewn cymoedd cyfagos yn cael cryn ddefnydd a phenderfynwyd gwrthwynebu eu cau. Y naill yn Nant Gwynant a’r llall yn Rhyd-ddu.

7. CG - Toiledau:

Er i’r Cyngor hwn wneud cytundeb gyda CG i gadw’r tri toiled ar agor cafwyd nodyn yn dweud bod Toiled Y Glyn i’w gau y gaeaf yma. Mae’n debyg mai trefniant anffurfiol gyda’r Uned Morwrol oedd yn cadw’r toiled yma ar agor, ac nad oedd y trefniant hwnnw bellach yn cael ei anrhyddedu am na all staff yr Uned wneud y gwaith. Cysylltodd y Clerc yn syth a’r adran, mynegwyd siom a dicter fod hyn yn ar ddigwydd gan bod y cytundeb ar y ddealltwriaeth bod y tri toiled yn aros ar agor am 12 mis. Hyd yma er cael trafodaeth ar y ffôn chafwyd dim ymateb pellach.

8. CG - Cynllun Cynefin Llechi:

Gwahoddiad i gyfarfod i drafod y cynllun uchod mewn perthynas a’r cais am Statws Safle Treftadaeth y Byd i dirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru. Dydd Mercher 4ydd o Ragfyr am 3.30 yn Y Ganolfan, Llanberis

6 CYNLLUNIO:

Cyngor Gwynedd:

C19/0981/15/LL - ‘Estyniad unllawr yn y cefn ynghyd a chreu patio’ - Gwynfryn, 16 Stryd Newton, Llanberis - Dim sylw •DS: KMJ yn mynegi diddordeb ac ymatal o’r drafodaeth

7 MÂN GYMORTHDALIADAU:

Derbyniwyd nifer o geisiadau am gymorth eleni. Penderfynwyd ar gyfraniadau fel a ganlyn:

Merched y Wawr, Llanberis £250.00 Cymdeithas Undebol Llanberis £100.00

Ras y Plant (Yr Wyddfa) £150.00 Gŵyl Llanberis £250.00

Geidiaid ag at Llanberis £200.00 Cylch Meithrin Llanberis a Nant £600.00

Eco’r Wyddfa £600.00 Cynllun Ieuenctid ‘Efe’ £300.00

Hwb Eryri [Tân Gwyllt Nos Calan £200.00 Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd £100.00

Eisteddfod Genedlaethol Cymru £100.00

8 ADRODDIADAU:

Cafwyd adroddiad o’r Gynhadledd Di-Garbon gan OG. Nid oedd yn teimlo fod llawer o ddim newydd ynddi. Cryn dipyn o sôn am newid hinsawdd, bygythiadau i’r glannau a’r mawn-diroedd. wedi gobeithio am syniadau cymunedol.

TUDALEN YR IFANC

Busnes lleol yn ehangu



Yn rhifyn Mehefin eleni roedd sylw Tudalen yr Ifanc yn canolbwyntio ar ddynes busnes ifanc o fro'r Eco sydd wedi sefydlu busnes caffi teithiol o'r enw Ffika.

Mae'n braf iawn clywed bod y busnes bellach wedi ehangu i gaffi sefydlog yn nhref Llanrwst. Wedi ei lleoli mewn hen adeilad y tanerdy yng nghanol y dref farchnad, mae Meg Lloyd yn gweini bwyd iachus Mecsicanaidd, coffi a chacennau i gynhesu'r enaid.

Llongyfarchiadau i Meg am ehangu gorwelion a chymryd y cam dewr o'r hen garafan i gaffi.

DODREFN A LLORIAU
PERKINS
FURNITURE & FLOORING

••• 01286 673535 •••

www.perkinsfurniture.co.uk

16 Stryd Porth Mawr , Caernarfon , Gwynedd . LL55 1AG

Atebion Nadoligaidd. Oeddech chi'n gwybod?

1. Dylunydd ac arlunydd oedd J.C.Horsley. Mae'n cael ei gyfrif fel dyfeisydd a dylunydd y cerdyn Nadolig cydnabyddedig cyntaf.
2. Ystyr Rudolf/Rudolph yw 'blaidd enwog'.
3. Gwyrdd
4. Ynys Christmas. Hwylodd Mynors heibio (ond ni laniodd arni) ar Ragfyr 25ain 1643. Roedd yn gapten ar un o longau'r East Indian Company.
5. Mae dwy Ynys Plum Pudding – un yn Awstralia a'r llall yng Nghanada.
6. Dyfeisio'r cracyr Nadolig er mwyn gwerthu melysion.
7. Stille Nacht / Dawel Nos.
8. Rudolf, i ddathlu ei benblwydd yn 75 oed.
9. Eos Iâl oedd enw barddol David Hughes (1794-1862) a aned ym Mryneglwys ger Corwen, ac a fu'n byw yng Nghynwyd. Ef oedd awdur "Ar gyfer heddiw'r bore".
10. Credir i'r plygain gael yr enw o'r Lladin 'pulli cantus', sef cân y ceiliog. Cynhelid y gwasanaeth yn gynnar iawn ar fore'r Nadolig.

1. Bangor, Caernarfon, Portmadog, Conwy, Llangefni a Bae Cemaes. (Roedd Llandudno yn Sir Conwy tra'n cystadlu.)
2. Tony Corle, Steve James
3. Roma, Inter Milan
4. Owen Lane
5. Marchogaeth ennillydd un o'r prif Rasys Ceffylau eleni.
6. Phil Davies, Mark Jones
7. Doha
8. Hoci Ia
9. Welsh Fire
10. Caerlŷr, Southampton

ATEBION i'r Cwis Chwaraeon.

BYSUS RHIWLAS

BYSUS BACH A MAWR
ar gael ar gyfer pob math o LOGI PREIFAT
Nosweithiau allan, Partion, Tripiau ac ati.
Am wasanaeth personol a thelerau rhesymol-
Ffoniwch (01248) 361044



D. P. OWENS RHIWLAS

DONIAU ‘YR HOGYN BACH O’R FACHWEN’.



Braint a phleser oedd bod yn bresennol yn noson lawnsiad cyfrol o farddoniaeth y bardd amryddawn – yn y dulliau caeth a rhydd – sef Norman Closs Parry. Y teitl ‘Sawr atgofus oriau’, sef llinell olaf addas ei englyn Gwyddfid.

Cynhaliwyd y noson yng Nghwesty’r Stamford Gate, Treffynnon. Daeth nifer draw i rannu profiadau’r ‘dyn dwad’ o’r Fachwen ac a fagodd wreiddiau dyfnion yn Sir y Fflint. Cadeirwyd y noson yn ddeheuig iawn gan ffrind mynwesol i Closs, sef Goronwy Wynne y naturiaethwr penigamp. Dyma feistr iaith a chynnwys. Cafwyd cyfraniadau gan deulu, cyfoedion, cyd-weithwyr a chyd-ardalwyr. Ac mor eang maes llafur atgofion y cyfranwyr, o fyd addysg, natur, pysgota a chrefydd. Pob un yn amlygu gwir ymroddiad Closs i’r agweddau yma o fywyd. Closs yr athro a phrifathro a welai muriau’r dosbarth yn ymestyn i’r tirlun cyfagos. Yr adarwr penigamp. A welai diwrnod y ‘casglu’ o’r adar yn y meysydd ger yr ysgol cyn y mudo Hydrefol yn ddiwrnod i gofnodi ar gof plentyn. Sawl hanesyn am y teithiau cerdded, yn enwedig rhai a chysylltiadau hanesyddol. Brithwyd sawl atgof gan hiwmor yn enwedig pan oedd y lleoliad ar yr Ynys Werdd. Wrth gwrs o gofio ymrwymiad Closs at bysgota caed nifer o ‘storiau sgotwrs’, a nifer yn cyfeirio mor gystadleuol yw Closs gyda’r enwair yn ei law. Un yn darllen y gwynt a’r cerrynt oedd Closs. Onid dyma yw anian y gwir fardd. Fe’n hatgoffwyd fod hefyd ambell i ‘stori cwch’, hynny yw y sgysiau un i un nad oedd i’w datgelu. Fe ddatgelwyd un serch hynny, a chlywaf atsain y chwerthin o hyd pan ddatgelodd Arwel Roberts eiriau y ghilly Gwyddelig yn rhannu cwch gyda Closs ac Arwel ar Loch Corrib. Y Gwyddel – yn socian drwodd ar bnawn ofnadwy o wlyb – eisiau mynd adref, a Closs yn mynnu aros nes dal y ‘cwota’ o bysgod. Ie, gweddi Wyddelig ryfeddol oedd honno. Cyfeirwyd at ymroddiad Closs at ei ffydd yn ymestyn o gapeli y Fachwen a Dinorwic draw i gapeli a phulpudau Sir y Fflint ble rhoddodd flynyddoedd o wasanaeth. Y ffydd â amlygwyd yn y gerdd gyntaf yn y gyfrol o golli ei gymar oesol Bet fis Chwefror diwethaf. Yn wir, cyflwynir y gyfrol er cof am Bet, ei graig yn sicr. Yr oedd cysgod Bet yn drwm ar y noson.

Teimladwy oedd datganiad Heulwen y ferch a’r wyresau yn darllen un o’r cerddi.

Daethpwyd â’r cyfraniadau i ben gyda datganiad y cerddor amryddawn Ieuan ap Sion gyda’i drefniant synhwyrol o un o gerddi’r gyfrol ‘Rhod yr Amser’. Gwfreiddiol, a dyma ddatganiad yn sicr y dylsid ei rhyddhau ar record.

Mae Closs yn fardd toreithog gyda cynefin, perthyn a natur yn thema cyson a berchir ac agyfoethogwyd yn y cerddi. Cydnabyddir cyfraniad ei ‘athro barddol’ cyntaf y diweddar Brifardd Einion Evans, llais Sir y Fflint. Yna’r olyniaeth ryfeddol fel symbylwyr – y Prifeirdd Alan Llwyd ac Ieuan Wyn. Dau benigamp, tybiwn i.

Mae’r Cyflwyniad gan Alan Llwyd i’w drysori. Parch Closs at y Gymraeg o’i wreiddiau yn y Fachwen. “Cymraeg y cerrig rhywiog ac nid y crawiau.” Y Gymraeg sydd yn fyw i Closs fel na deimla fel cyhoeddi ei thranc. Mae un brawddeg ysgytwol gan Alan yn fy marn i. “Bardd sy’n sylwi ar y mân bethau sydd yma, eto yn rhoi inni y darlun mawr.” Mae Closs yn sicr o Dduw y Crewr.

Duw’r Gorchymyn, a Duw’r Ateb

Duw y Creu a Chalfari.

Rhan i’w thrysori yn y cyflwyniad yw dehongliad Alan o un o sonedau Closs sef ‘Hyn yw’r Sacrament’. Treulir amser gyda’r gerdd hon, a rhoddir beirniadaeth Eisteddfodol megis gan Alan fel petai. A sôn am Eisteddfod, mae’n hysbys fod Closs wedi dod yn agos at gipio prif wobrau’r Genedlaethol. Y mae’r gyfrol yma yn sicr yn ei amrywiaeth o destun, profiad a mesur yn cadarnhau hynny.

Un elfen amlwg o’r cerddi yw ymlyniad Closs o hyd i’w filltir sgwar gynhenid yn amgylchynu Llyn Padarn ac ar bonciau oesol yr Elidir. Gwelir y cerddi ‘Craig yr Undeb’, Ffiar Injan (Yr Allt Ddu) a’r ymateb i oedfa yn y Capel Coch, neu fyfyrddod ym Mynwent Macpela. Ceir hefyd sawl englyn, rhai yn naturiol o fyd natur. Dyfynnaf un, sef ei englyn i Las y Dorlan.

Ar hyd y rhyd fflach o drydan: eiliad

a ddaliodd fyd cyfan;

Nid oedd ond mellten o dân

yn gwelwi tlysnîr geulan.

A sôn am Las y Dorlan. Nid cyfoeth i’r glust yn unig yw’r gyfrol hon gan ategir at y cyflawn gan ddarluniau y ffotograffydd enwog o Sir y Fflint, Sion Jones. Dyma feistr ar ei grefft yn sicr. Yno hefyd mae ffotograff anhygoel Eifion Griffith o Las y Dorlan. Fel petai Eifion wedi gosod yr aderyn bywiog fel model i’w ddal yn ei wisg ysblennydd am byth.

Cyhoeddir y llyfr gan Wasg Cyhoeddiadau Modern Cymreig Allerton, Lerpwl dan olygyddiaeth y Parch. D.Ben Rees. Argraffwyd yn raenus iawn gan Wasg Book Empire, Garforth, Leeds. Yr oedd D.Ben Rees yn bresennol yn rhoddi darlun o’r cydweithio agos, cynnes a ddaeth â’r gyfrol arbennig hon i olau dydd. Fel y dywedodd rhywun ar y noson, “un polymath yn rhannu profiadau polymath arall.” Y pris am y trysor farddol hon yw £10. Trefnir y gwerthiant gan Siop y Siswrn, Yr Wyddgrug ond maen siwr bydd ar gael yn rhwydwaith y Siopau Llyfrau Cymraeg. Dyma drysor o gyhoeddiad o ran cynnwys a diwyg, a chyfraniad pendant i’n bywyd llenyddol Cymreig. Diolch Closs am rannu dy brofiadau a’n herio! Prynwch, mwynhewch, myfyriwch.

Richard Llwyd Jones



Clwb 300 y Ganolfan Enillwyr y Clwb am fis Tachwedd oedd £30: Sian Gareth, Plas Glynafon (82); £20: Geraint Williams, 13 Croes y Waun (11); £10: Dr Huw Roberts, Culfor, Ffordd y Gogledd, Caernarfon (261).

Casglu Stampiau Yr amser yma o'r flwyddyn daw'r postmon â chardiau a stamp ar yr amlen drwy eich drws. Un sy'n casglu stampiau a'u defnyddio at achosion da yw Haf o Lanrug. Byddai yn falch iawn o'u cael. Os y gwnwch eu casglu dowch â nhw yma i mi ac fe ofalaf ei bod yn eu cael. Diolch Nan.

Merched y Wawr Nos Iau, Tachwedd 28, daeth bws i'r pentref a chludwyd yr aelodau i Bron Menai yng Nghaernarfon er mwyn iddynt gael dathlu Gŵyl y Nadolig gyda'i gilydd dros bryd o ginio Nadoligaidd. Gan fod Bethan, ein Llywydd, yn methu bod yn bresennol Heulwen Huws gymerodd yr awenau o fod yn Llywydd y cyfarfod. Ar ran yr aelodau cydymdeimlodd yn ddwys â Iona a'r teulu ac â Glenys a'r teulu yn eu profedigaeth drist. Diolchodd i yrrwr y bws am eu cludo'n ddiogel i'r dref ac yn ôl wedyn i'r Waun. Roedd y tri chwr yn hynod o flasus a phawb yn canmol ac yn diolch i'r sieff a'r rhai oedd yn gweini am y pryd blasus a'r croeso gawson nhw yno. Bydd cyfarfod nesaf y gangen yn cael ei gynnal yn y Ganolfan ar nos Iau, Ionawr 23, 2020, pryd y bydd noson yng nghwmni Aled Taylor a fu'n aelod o Dîm Achub Mynydd Llanberis. Bydd y cyfarfod am 7.30 o'r gloch ac mae croeso i aelodau newydd ymuno.

Sgwrs â Dipyn o Gês Tra'n siopa unbore wythnos diwethaf yng Nghaernarfon deuthum i gyfarfod â Glenys Williams, Betws Garmon. Wedi cyfarch ein gilydd dechreuom sgwrsio a rhoi'r byd yn ei le. Meddwn i wrthi yn y sgwrs,

"Does neb yn gwybod beth sydd rownd y gornel, Glenys bach."

"Nag oes wir," meddai hithau, "fydd dim siopa inni toc, bydd popeth yn cael ei werthu ar lein." Aeth ymlaen i ddweud fel yr oedd wedi archebu rhywbeth ar y ffôn ond meddai'r wraig ar y pen arall wrthi,

"You can order it on line," ac meddai Glenys wrthi,

"I've only got a washing line." Wel, mi fu'r hen Glenys yn sydyn ei hateb, yn do?

Sgwrs Aled Taylor a Dei Tomos Un nos Sul yn ystod mis Tachwedd bu Aled yn sgwrsio gyda Dei yn ystod ei raglen ar Radio Cymru. Roedd yn sgwrs ddiddorol iawn rhwng y ddau, un ochr iddi yn hwyliog a'r ochr arall yn drist ac yn rhoi dipyn o ddychryn i ni o glywed am y damweiniau sydd yn digwydd i gerddwyr a dringwyr y mynyddoedd a'r perygl y mae'r timau achub yn wynebu wrth eu gwaith ddydd a nos ac ymhob tywydd.

Mae Aled wedi ymddeol erbyn hyn ond pob cyfle gaiff o mae'n cerdded y mynydd ac, yn sicr, mi fuasai'n helpu unrhyw un a welai mewn angen. Synnwn i ddim na fydd gofyn mawr am y llyfr 'Ceidwad y Mynydd'. Atgofion warden yr Wyddfa a thim achub mynydd Llanberis, Aled Taylor. Ac os caf i ychwanegu - un o hogia Waunfawr.

Tim dan 7 Waunfawr yn eu cit newydd wedi cael eu noddi gan LL.M.R Cleaning Services. Maent yn chwarae yng Nghyngor Gwyrfa. O'r chwith i dde: Elis, Alfie Wyn, Alfi Mei, Liam, Cynan ac Alfie bo.

Cefnogwyr Caredig Bachgen o'r Waun yw Danny Gosset oedd yn aelod o dîm pêl-droed Dinas Bangor cyn iddo ymuno â thîm tref y Bala. Cymerwyd ef yn wael a darganfuwyd ei fod yn dioddef gancr. Penderfynwyd trefnu casgliad ariannol i'w gefnogi ef a'i deulu. Un bore Sul ym mis Tachwedd ymgasglodd tua 165 o'i ffrindiau i gymryd rhan yn y ras redeg a drefnwyd dros Bont yr Aber yng Nghaernarfon ac fe gasglwyd arian i'w helpu gyda chostau'r driniaeth.

Diolchodd Danny i bawb am eu cefnogaeth a diolchodd Alun Vaughan, trefnydd y ras, i bawb am eu caredigrwydd. Mae'n dda clywed am garedigrwydd fel hyn ac y mae Danny yn anelu i gael dychwelyd i 'fyd pêl-droed' cyn diwedd y tymor. Dymunwn y gorau iti, Danny.

Genedigaeth Llongyfarchiadau i Lesley ac Ian, Stad Tŷ Hen, ar ddod yn nain a thaid i Gruffydd John, eu wŷr bach cyntaf, mab i'w merch Ffion a'i phartner, Jamie a gor-wŷr i hen nain Iona. Mae Gruffydd wedi gwneud ei le yn y teulu ac fe fydd yn fwynhad mawr iddynt

gael ei fagu a'i fwytho.

Llongyfarchiadau hefyd i William ac Aimee, ei bartner, ar enedigaeth eu mab bach, Theo William Davies. Wŷr i Diane a Mark, Afallon, a gor-wŷr i taid Dafydd a nain Llywela, Stad Tref Eilian. Mae gan Theo ddwy hen, hen nain. Mae un hen hen nain, sef Mrs Nansi Williams, yn derbyn gofal yng Nghartref Marbryn, Caernarfon, ac mae hen hen nain arall yn byw yng Nghlynnog. Mwynhewch ei wyllo yn magu yn dda ac yn altro.

Pen-blwydd Arbennig Llongyfarchiadau i Mrs Nan Huws Roberts, sydd wedi symud o'r Waun i fyw yng Nghaeathro, ar gyrraedd ei phen-blwydd yn 80 mlwydd oed. Rwy'n siŵr iddi fwynhau y dathlu.

Hefyd bu Dewi Lloyd Jones, Stad Bod Hyfryd yn dathlu cyrraedd ei bedwar ugain mlwydd oed. Dyma'r ail reswm i ddathlu iddo yn ystod y mis diwethaf.

Priodas Dymunwn bob hapusrwydd i Manon, Gorffwysfa, ar ei phriodas ac Alan. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i chi eich dau yn eich cartref newydd yng Nghaernarfon.

Dathlu Gŵyl y Geni Diolch i swyddogion yr Antur am drefnu noson i groesawu yr Wyl. Roedd llawer o drigolion y pentref wedi dod i weld a phrynu gwaith celf gweithwyr yr Antur ac i glywed plant yr ysgol a chôr yn canu Carolau.

Diolch hefyd i Gyngor Cymuned y pentref am drefnu noson 'Goleuo'r Goeden', gyda phlant yr ysgol, grŵp o'r Antur a pharti merched Gwyrfa yn diddori wrth ganu carolau, a Catrin Gwyrfa yn cyfeilio i'r gynulleidfa gael canu tair carol. Y Cyngorydd Edgar Owen arweiniodd y noson ac aelodau o'r Antur fu'n paratoi paned a chacen. Diolch i chi i gyd.

Nos Fawrth, Rhagfyr 24 am 4.30 o'r gloch y pnawn - cadwch mewn cof

Eleni eto bydd Gwasanaeth Noswyl Nadolig yn cael ei gynnal yng Nghapel y Waun a'n rhoi yn naws y tymor. Yn ystod y gwasanaeth gwneir casgliad tuag at achos da. Dymunwn ddiolch i'r rhai sy'n trefnu y gwasanaeth ac i'r rhai sy'n cymryd rhan.

Llwyddiant Mae Norman ac Olwen Williams, Llidiart

Wen, yn siŵr o fod yn falch o'u wyres, Nel Gwilym, yn dilyn ei llwyddiant yn derbyn Tlws yr Ifanc am waith arbennig yn y gystadleuaeth ar gyfer Eisteddfod Bethel, Llanrug a Chwm y Glo. Llongyfarchiadau i ti, Nel.

Llongyfarchiadau i Dîm Clwb Hoci Merched Caernarfon sydd wedi cael dechrau da i'r tymor. Mae un o'r tîm, Cerys, sydd yn wreiddiol o Ddeiniolen ac yna o Lanrug, wedi cartrefu yma yn Waunfawr erbyn hyn. Llongyfarchiadau i ti, Cerys.

Profedigaeth Tristwch oedd clywed am farwolaeth Thomas H. Williams, yn dawel ar 28fed o Hydref yn 88 mlwydd oed. Priod annwyl Iona a thad tynner Dafydd, Delyth, Siân ac Ian a thad yng nghyfraith i'w partneriaid. Roedd yn Daid i naw ganwyd ei or-wŷr cyntaf ychydig ddyddiau ar ôl ei farwolaeth.

Dewis y teulu oedd gwneud casgliad er cof am Tom tuag at offer i'r Syrjyri newydd yn y pentref.

Teyrnged a ddarllenwyd gan Dafydd, ei fab, yn yr Amlogfa.

Dros y dyddiau diweddaf 'ma mae yna lot o bethau wedi cael eu dweud. Y gair 'addfwyn' sydd wedi ei ddefnyddio rhan amlaf. Mae'n amlwg o'r nifer sydd wedi galw yn ei gartref ac yn ein tai ni dros y pythefnos diwethaf bod Dad yn un poblogaidd. Lot yn dweud eu bod nhw'n cofio'r sgysiau difyr efo fo. Mi wnawn ni ei gofio fo am ei arweiniad a'i gyngor doeth. Roedd o'n ŵr ffyddlon, yn Dad arbennig, yn Daid a hen Daid ffantastig. Mi oedd Dad yn ffrind i bawb.

Mae Mam wedi bod yn arbennig o dda yn edrych ar ei ôl o, ond mi oedd o yn un arbennig yn edrych ar ei hól hithau hefyd. Mi faswn i'n gallu bod yma am oriau yn dweud ein hynt a'n hanes ni fel teulu yn mynd ar ei gwyliau ac yn hirach byth yn dweud hanes Dad a Mam yn mynd ar eu gwyliau a'u teithiau ar ôl i ni dyfu i fyny.

Mae ein gwerthfawrogiad ni fel teulu am bob neges o gydymdeimlad yn werthfawr. Diolch i Mam am yr oll wnaeth hi i Dad ac, yn fwy na dim, diolch i Dad am bob dim wnaeth o i ni.

Profedigaeth Yn dawel yn

Ysgol Waunfawr



Diwrnod Plant Mewn Angen Roedd yn braf gweld y plant i gyd wedi gwisgo ar gyfer Diwrnod Plant Mewn Angen ddydd Gwener, Tachwedd 16eg. Yn ystod y dydd cafwyd llawer o weithgareddau i ymwneud â'r diwrnod – peintio wynebau, addurno bisgedi Pudsey, gweithgareddau dosbarth yn seiliedig ar y diwrnod, gwerthwyd breichledi a chlustiau Pudsey. Casglwyd £350.00 tuag at yr achos, Diolch i bawb.

Llongyfarchiadau

- Hoffem longyfarch yr wyth disgybl a fu'n cystadlu yn Gala Nofio'r Urdd ym Mangor, yn arbennig Teilo ac Ena a fydd yn cystadlu yn y Gala Genedlaethol yng Nghaerdydd ddechrau'r flwyddyn. Gwych iawn!

- Llongyfarchiadau hefyd i Cadi Lois ac Erin, blwyddyn 6, ar eu llwyddiant gyda Grŵp Dawnsio Anti Karen. Fe ddaeth y grŵp yn gyntaf yng nghystadlaeth UK Champ yn Blackpool yn ddiweddar.

Diolch

- Bu disgyblion blwyddyn Derbyn i flwyddyn 6 yn gwneud crefftiau y Nadolig yn yr Antur yn ddiweddar. Hoffem ddiolch i Mr Richard Cashman, Swyddog Llesiant y Cyngor, a staff yr Antur am drefnu'r weithgaredd. Bydd y crefftiau ar werth yn ein Ffair Nadolig.

- Diolch i Miss Angharad Harrop am gynnal gwersi dawns yn yr Adran Iau ac i Mrs Leisa Edwards am gynnal gwersi Yoga ym mhob dosbarth ddiwedd mis Tachwedd. Roedd pawb wedi mwynhau y gwersi.

- Diolch i Anti Carys, Anti Sharon, Anti Syl ac Anti Amy am ginio Dolig gwerth chweil. Roedd pawb yn edrych yn hyfryd yn eu siwmperi Nadolig.

Noson Miri Siôn Corn yn yr Antur Diolch i bawb a ddaeth i gefnogi'r plant yn canu carolau yn noson Miri Siôn Corn yn yr Antur ar Tachwedd 29ain. Pawb wrth eu boddau yn gweld Santa yn ei groto. Diolch i Tracey / Diane / Dewi a'r gweithwyr i gyd am drefnu.

Canu rownd y goeden Diolch hefyd i bawb a ddaeth i'r noson goleuo Coeden Dolig y pentref. Roedd hi'n braf gweld cymaint yn bresennol.

Ffair Nadolig Cynhaliwyd Ffair Nadolig lwyddiannus iawn ddechrau Rhagfyr. Diolch i aelodau'r Pwyllgor Rhieni am drefnu ac i bawb a ddaeth i gefnogi. Gwnaed elw o £1097.00.

Dymunwn Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chi i gyd.

Bydd yr ysgol yn ailagor dydd Mawrth, Ionawr 9fed.

ei chartref yng nghwmni ei merch, Eryl, a'i mab, Alwynne, bu farw Mrs Catherine Jones, priod y diweddar Mr O.T. Jones. Cydymdeimlwn yn ddwys â chi ac â Mike a Helen, ei mab a'i merch yng nghyfraith yn eich profedigaeth drist. Bydd ei cholli yn dristwch mawr i'w wyrion, Gareth, Matthew ac Alun a'i wyres Ella Mair a'u partneriaid ac i Awena a Siwan, ei gor-wyresau a'i gor-wyr Caio, a hithau yn nain a hen nain oedd mor falch ohonynt.

Roedd yn chwaer annwyl i Iona, ac i Eric ac Enid, ei diweddar frawd a chwaer, ac yn fodryb garedig i'w nithoedd a'i neiaint.

Bu'r gwasanaeth angladdol yng Nghapel y Waun dan ofal y Barchedig Gwenda Richards gyda Iola Llywelyn wrth yr organ, ac yna yn yr Amlogsga

ym Mangor.

Roedd Mrs Jones yn un weithgar iawn yn y pentref, wedi ei geni a'i magu yma. Roedd yn aelod ffyddlon o'r Clwb Bowlio, yn Llywydd Sefydliad y Merched ac yn organyddes y capel. Yn y flwyddyn 2014 derbyniodd blât arbennig yn rhodd gan aelodau y capel i ddiolch iddi am 70 mlynedd o wasanaeth wrth yr organ.

Dair blynedd yn ôl fe benderfynodd ymddeol o fod yn organyddes a derbyniodd dorch o flodau yn rhodd o ddiolch am ei gwasanaeth. Bydd gwagle ar ei hôl yn y gweithgareddau hyn.

Profedigaeth Cydymdeimlwn â Michael Elias Owen a'i gymar, Karen, Stad Bro Waun, yn eu profedigaeth o golli tad a thad yng nghyfraith. Cydymdeimlwn

hefyd a Marlene, mam Michael a phriod Gwilym Elias, gynt o fferm Yr Ystrad, Betws Garmon. Hefyd a'i fab David a'i briod Sarah a'i ferch Emma. Roedd yn daid annwyl i'w wyrion a'i wyresau ac i'w or-wyrion. Bydd yn golled drist ac anfonwn ein cofion annwyl i'r teulu a'i ffrindiau. Bu'r gwasanaeth yn yr Amlogsga ym Mangor.

Profedigaeth Wedi dwy flynedd o ddioddef a methu symud yn dilyn damwain gyda'i cheffyl a chael gofal a thriniaethau yn Ysbyty Gwynedd ac Ysbyty Stoke bu farw Mary Korn, Garnedd Wen, Groeslon, Waunfawr. Roedd ei phriod, Tom Korn, yn feddyg arbenigol yn trin salwch Haematoleg yn Ysbyty Gwynedd. Bu ef a meddyg arall yn gweithio'n galed ac yn gyfrifol am sefydlu Uned Alaw yn yr ysbyty. Bu ef farw flwyddyn yn ôl.

Cydymdeimlwn â'u merch.

Gwasanaethau Capel y Waun am 10 y bore fis Ionawr 2020

5: Mr John Robinson

12: Parch Gwynfor Williams, Caernarfon

19: Parch Gwenda Richards

26: Mrs Nerys Griffiths

Cyfarchion y Tymor Anfonwn Gyfarchion Gŵyl y Geni atoch gan gofio am y rhai sydd yn derbyn gofal adref, mewn Cartrefi Preswyl, Cartrefi Nyrsio ac yn yr Ysbytai. Anfonwn gofion cynnes at y teuluoedd a gollodd un annwyl iddynt yn ystod y flwyddyn. Mae'r amser yma yn amser anodd iawn. Ar Ionawr y cyntaf fe wynebwn y Flwyddyn Newydd gan ddymuno amser da i'n gilydd

Un funud fach ...

TYLWYTH TEG?

Nid fy ngeiriau i, ond geiriau plentyn bach dwyflwydd oed oeddent. Gwyllo drama Nadolig plant bach ychydig hyn nag o'i hun ei ysgol leol oedd o. Gweld rhes o genod mewn ffrogiau gwyn (o bosib gydag adenydd ar eu cefnau a chylchoedd bach uwch eu pennau) a wnaeth iddo ddatgan ar goedd, "Does yna ddim tylwyth teg yn Stori'r Geni!" Roedd yn llygad ei le wrth gwrs. Ac er dweud wrtho nad tylwyth teg ond angylion oeddent doedd o ddim wedi ei argyhoeddi: "Nid angylion ydi'r rheina!"

Mi ddywedwn i fod y bychan yn dipyn o ddiwinydd neu gyw esboniwr Beiblaidd. Mae ganddo syniad o'r hyn sy'n rhan o Stori'r Geni, a'r hyn nad yw'n rhan ohoni. Er mor ifanc, mae wedi deall nad oes tylwyth teg ar gyfyl yr hanes. Mae'n debyg y byddwn yn dweud gormod pe byddwn yn awgrymu ei fod hefyd, wrth ddatgan nad angylion chwaith oedd y genod bach, yn deall mai ar ffurf dynion yr oedd Gabriel ac angylion y Testament Newydd yn ymddangos.

Oes bosib bod hogyn dwyflwydd oed yn fwy effro na ni? Ydym ni mor ymwybodol o'r hyn sydd wir yn rhan o'r stori fawr hon neu ydym ni'n dueddol o dadogi iddi elfennau nad oes sôn amdanynt yn Y Beibl? Na, nid oes dylwyth teg yn y stori; ond does yna chwaith ddim mul yn cario Mair, na pherchnogion gwestai lleol yn gwrthod llety iddi hi a Joseff, nac angylion wrth y preseb, nac oen bach yn anrheg i'r babi gan y bugeiliaid, na thri brenin yn dod i'w weld. Ydym ni'n ddigon cyfarwydd â'r hanes yn yr efengylau i allu gwahaniaethu rhwng yr hyn sy'n Feiblaidd ac yn ffeithiol gywir a'r hyn nad yw ond traddodiad a dychymyg?

Does dim rhaid i bawb ohonom fod yn ddiwinyddion mawr, ond y mae'n dda i ninnau wybod beth sydd wir yn rhan o'r hanes a beth a ychwanegwyd ato. Yn hyn o beth, yr allwedd yw gwybod beth ddywed Y Beibl, a phwyso a mesur popeth arall yn ei oleuni. Chwiliwch yr hanesion, a cheisiwch weld pa elfennau a ychwanegwyd atynt dros y canrifoedd.

Wedi dweud hynny, ni fyddwn yn dadlau y dylai pob cyflwyniad o Stori'r Geni yn ein capeli a'n hysgolion ddileu gwyr a gwragedd y llety, a gwahardd yr angylion rhag dod at y preseb, a llosgi coronau'r doethion. Mae yna rai ychwanegiadau nad ydynt yn gwneud gwahaniaeth i'r neges. Weithiau, er mwyn i bawb gael dweud gair neu ddau mae'n werth cael tri neu ragor o wŷr y llety! Wnaiff hynny ddim drwg mawr i neb. Ac os ydych wedi treulio amser neu wario arian ar goronau hardd i'r ymwelwyr o'r Dwyrain, waeth i chi eu cadw ddim.

Ond nid yw hynny'n rhoi rhwydd hynt i ni, fel rheol gyffredinol, ychwanegu unrhyw beth at yr Ysgrhythur na thynnu dim oddi wrtho. Y peth cywir a doeth a buddiol yw ein bod yn gwneud pob ymdrech i ddeall yn union beth a ddywed hwnnw wrthym gan mai Gair y Duw Byw ei hun ydyw.

JOHN PRITCHARD

Pigion Byd Natur

Deryn Diarth o Ddel



*Stamp post lliwgar gwlad
Hwngari a gyhoeddwydym
mis Chwefror 1990.*

Bore Sadwrn ym mis Tachwedd oedd tra'n aros fy nhro i brynu stampiau post mewn llythyrdy, fe'm cyfarchwyd gan gyfaill o Gymro. "Hei, Guto," ebe fo, "Be'di'r enw Cymraeg am hoopoe?"

"Copog", atebais inna, "Deryn diarth o ddel, sy'n ymwelydd prin â Chymru". Ond darlun, digon rhyw giwt, ar stamp post a welais i ohonno hyd yma!

Aderyn maint bronfraith ydyw, ac y mae ei big, un o liw sinamon, wedi'i chrymu. Does harddach aderyn. Ebe John Ashton yn ei gyfrol 'Adar ein Gwlad' (1907): "Mae ei sioba ardderchog (corun sydd mewn golwg), ei liwiau trawiadol, ei ddoedra a'i hoffder o'r meysydd a mannau agored yn peri iddi syrthio yn ysglyfaeth i'r gŵr â'r dryll, bron cyn gynted ag y bydd wedi cyrraedd. Llwydgoch yw lliw y rhannau uchaf, du a gwyn yr adenydd, y cefn a'r gynffon; a gwyn y rhannau isaf." Bydd yn codi a gostwng, agor a chau ei gorun hardd. Pwysleisia John Ashton hefyd mai ymwelydd sobor o brin â'n henwlad ydyw'r copog. Oes, y mae cofnodion cynnar amdano ac enwir rhai mannau yng Nghymru ble y'i gwelwyd; e.e. Llyn Maelog, Ynys Mon (1898) – a'i saethu'n farw yno; Nanhoron, Pen Llŷn (1900), Rhiwlas (Awst 1907), ac Aberdyfi (7fed Awst 1911). Gellir ychwanegu hyd sicrwydd i'n cyd-wladwyr o adarwyr ei weld yn chwedegau'r ugeinfed ganrif, a hynny mewn rhai mannau ym Morgannwg, ond ni tharawyd ar unrhyw dystiolaeth iddo nythu yma.

Er hardded ei blu, a'i chwythu gan wyntoedd cryfion deheuol i'n cwr ni o'r Fam ddaear, aderyn nad ydyw'n malio'r un iotyn am lanweithdra, a hynny tra'n magu cywion, ydyw'r copog. Bydd yn nythu mewn tylla llawn arogleuon drewllyd sy'n bodoli mewn boncyffion a changhennau coed. O gael llond eu gwala o bryfed cop a mân drychfilod, bydd y cywion yn prifio hyd nes magu ohonynt goronau llawn prydferthwch. Byddent maes o law yn cludo eu holl harddwch pluog efo nhw i Affrica, ac yn gaeafu yno cyn dychwelyd y gwanwyn canlynol i rai mannau yn Ewrop.

Yn yr hen Aifft, coledir syniad bod i'r copog alluoedd anghyffredin. Er enghraifft gall ganfod dyfroedd gwella cleifion! Enw'r Arabiaid arno yw 'deryn meddygol'.

Cwbl wahanol ydyw hi arno'n neheubarth Ewrop, oherwydd yno, tra mae ar daith ymfudol, fe'i saethir, ac eir ati i'w goginio, a bwyta'i gig amheuthun o flasus.

Dafydd Gruffudd Ifan.

ON Os cofiaf yn iawn (ac y mae hi flynyddoedd yn ôl!) oni chafwyd ymweliad â'r fro hon gan y Copog tua dechrau'r 1960'au. Mae gen i gof o gael gwybodaeth gan Mrs Mary Vaughan Jones (Miss Parry Biol) am yr aderyn mewn gwrs Bywydeg. Oes rhywun yn gallu cadarnhau hyn, neu ydi henaint yn chwarae triciau â'm cof? Golygydd.



Y Storfa Spar Llanrug

Sgwâr Llanrug
01286 673108



Bwydydd, Diodydd, Papurau Newydd,
Cardiau Cyfarch, Swyddfa Bost

Llun - Sadwrn 6:30am - 9 pm, Sul 8am - 9pm

Chwaraeon



PLESER

Rhith eu byd, hwy'n Gareth Bale, – neu hwy'n sêr
San Siro ym Methel?
Oes trysor hwnt eu gorwel,
pwy a wŷr, o gicio pel?

CYSTADLEUAETH DEG?

Denodd canlyniadau dwy gem bêl-droed fy sylw yn ddiweddar. Gemau â chwaraewyd yn y Gynghrair i ail dimau yr ardal. Ail Dîm Bangor 9 Ail Dîm Llanberis 0. Ail Dîm Bangor 4 Ail Dîm Llanrug 0. Dydy ail dimau Llanrug a Llanberis ddim yn dimau gwael, felly a'i dau berfformiad gwael draw ar Nantporth sydd yma? Ond arhoswch funud. Wedi'r trafferthion gyda tîm Dinas Bangor, pwy yw aelodau carfan digon niferus i roddi dau dîm gwahanol ar y cae. Mae aelodau eu Academi lewyrchus dros sawl tymor wedi arwyddo i glybiau eraill, neu wedi symud i greu mwyafrif o aelodau Bangor 1876. Maen amlwg felly bod y mwyafrif sy'n chwarae yn 'ail dîm' Bangor yn chwarae'n rheolaidd yng Nghynghrair Ail Haen pêl-droed Cymru. Tipyn o gagendor yma. Ers talwm roedd rheol bendant yn dweud na allai chwaraewr oedd wedi chwarae nifer benodol o gemau yn yr haen uwch chwarae i dimau mewn haen is. Y pwrpas oedd arbed timau rhag arwyddo 'chwaraewyr gwell' ar gyfer gemau pwysig diwedd tymor. A yw'r sefyllfa a ddarluniais yn y Gynghrair Ail Dimau yn deg felly?

CWIS NADOLIG YRECO

1. Pa glybiau o Wynedd a Môn fu'n cystadlu yng Nghynghrair Bêl-Droed Genedlaethol Cymru?
2. Pa ddau gricedwr gymerodd a) y nifer mwyaf o wicedi mewn batiad a b) sgoriodd y nifer fwyaf o rediadau mewn batiad, tra'n cynrychioli Morgannwg ym Mae Colwyn?
3. I pa ddau dim Eidalaidd roedd cyn chwaraewyr Man. Utd. Smalling a Lukaku yn wynebu eu gilydd yn ddiweddar?
4. Pa asgellwr ymunodd yn hwyr yng ngharfan derfynol rygbi Cymru yn rowndiau terfynol Cwpan y Byd?
5. Khadijah Mellah oedd y ferch Fwslemaidd Brydeinig gyntaf i gyflawni pa gamp?
6. Pa ddau chwaraewr a ennillodd gapiau rygbi llawn i Gymru sydd wedi body n brif hyfforddwyr tîm rhanbarth RGC?
7. Ym mha wlad y cynhaliwyd Pencampwriaethau Athletau y Byd yn 2019?
8. Ym mha gamp mae tîm Caerdydd yn cystadlu yn uwch adran Prydain?
9. Beth fydd enw y tîm criced wedi ei leoli yng Nghaerdydd fydd yn cystadlu yng nghystadleuaeth newydd y Can Pêl?
10. Pwy oedd y ddau dîm yn y gêm orffennodd 9-0 yn Uwch Gynghrair Pêl-Droed Lloegr y tymor yma?

Atebion ar dudalen 26.

Nadolig Llawn a
Blwyddyn Newydd Dda

GLYNTWROG
LLANRUG
671191

Bwyd ardderchog
am brisiau rhesymol

Bydd croeso
cynnes yma
dros yr ŵyl



Nadolig Llawn a
Blwyddyn
Newydd dda oddi
wrth bawb yng



NGHARTREF



Ffordd yr Orsaf
LLANRUG

Ffôn: C'fon 674652



Ar ben arall i'r lein*



Nadolig Llawen

A ninnau ar drothwy'r Nadolig 'roeddwn yn disgwyl buasai ewyllys da yn lledaenu dros y tir, ond yn anffodus dim fel yna mae pethau yn y byd pysgodfaol. Felly medda chwi, be sydd wedi dod i'n ffordd unwaith eto, wel fel hyn mae hi, yn gyntaf 'rydym yn dal i ddisgwyl gweld y deddfau newydd fydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn ei gyflwyno i atal a chyfyngu dulliau pysgota am yr eog am 2020, mae rhain i fod i ddechrau ar 1af Ionawr 2020. Does dim byd wedi dod i law hyd yn hyn, ond 'rwyn tybio bydd un cymal yn dweud bydd pysgota gyda pry genwair am yr eog yn anghyfreithlon, ond bydd pysgota'r un dull am frithyll a brithyll môr yn gyfreithlon. Felly fel anrheg cyntaf y Nadolig buaswn yn ddiolchgar dros ben os buasai'r criw 'na yng Nghaerdydd yn gofyn i Sion Côrn ddarbwyll pob eog sydd yn nofio'n braf o amgylch Gwlad yr Iâ, pan fyddent dod yn ôl i afonydd Cymru yn ystod misoedd yr haf, bydd yn hollol anghyfreithlon iddynt feddwl am wneud prydyn o'r pryfyn hir yna fydd ar fach o'u blaenau, gan fod hyn yn groes i ddeddfau'r wlad.

A fy ail gais i Siôn Corn ydi i drïo ei oreu i gael rhai adrannau o Gyngor Gwynedd sydd yn y swyddfa fawr na yng Nghaernarfon i weithredu ar ran rai o blwyfolion y sir yn enwedig ni fel pysgotwyr. Mae wedi dod i'm sylw fod rhwng yn y cwt mawr yna yn y dre wedi gofyn i Cyfoeth Naturiol Cymru roi gwaharddiad ar bysgota'r torgoch ar Padarn. Ar ei dŵr ei hunain tybed? - wel nac, ar yr holl lyn yn ôl pob golwg, er na'r unig beth sydd yn eu meddiant fel hawliau pysgota yw rhyw ddwy ran o dair o wyneb y llyn a rhyw 5% o'r glannau. Mae'r gweddill ym mherchenogaeth y gymdeithas, does neb o'r cyngor na Cyfoeth Naturiol Cymru wedi bod mor gwrtais a trafod eu bwriad gyda'r gymdeithas - a chredwch neu beidio dwi'n dal i ddisgwyl unrhyw sylwad ar y bwriad gan y ddau gorff - dyma o bosib 'rydym i ddisgwyl yn y dyfodol, sef rheolath dotalitaraidd. Y bôd mawr a'n gwaredo. Dim pysgota ond chwaraeon dŵr fydd i'w ganiatau o hyn ymlaen - a hyn i gyd am ddim ond i ni fel trethdalwyr.

Fy nhrydydd cais i'r hen Siôn yw eto yn ymwennu a Cyngor Gwynedd - ar Sed Tachwedd gofynnais am gopi o'r cyfarnod a gytunwyd gan y cyngor yn 1986 ar bryniant o ran o Lyn Padarn oddi wrth Awdurdod Dŵr Cymru ac sy'n gwahardd cychod o ran o Benllyn. Mae'r cais o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth sydd

y eu gorfodi i ymateb o fewn 20 diwrnod gwaith. Ond yn ôl pob golwg nid yw deddf gwlad yn meddwl dim i rai swyddogion y cyngor. Efallai fydd yr hen Siôn yn medru gweld ei ffordd yn glir i'w gorfodi roi yr ateb i'm cais yn fy hosan wrth droed y ngwely. Neu bydd yn rhaid cael gair a'r Comisiynydd Gwybodaeth.

Wel dyna fy rhestr o ddymuniadau wedi ei gwend - ond cofwch mi oedd dau gais arall i'r hen foi barfog yna - a diolch i'r drefn dwi di cael rhain yn barod - anrhegion cynnar, derbyniol iawn, a dyma nhw ichi:-

Fel y gwyddoch 'rwyf wedi pregethu er rhai blynyddoedd i gael grawn torgoch i'w ddeori yn neorfa Cwawia, wel mae hyn wedi'i gyflawni. Dydd Iau 6ed Rhagfyr yn dilyn rhoi y rhwydi i lawr yn Afon y Bala, cafwyd helfa arbennig o dorgoch - mae oddeutu 500 o'i wyau wedi eu trosglwyddo a'u gosod yng Nghrawia. Bydd hyn yn rhan o gynllun ymwybyddiaeth gydag Ysgol Gwaun Gynfi. Rhaid diolch unwaith eto i Dr Robin Parry am drefnu a hefyd yn arbennig i staff Cyfoeth Naturiol Cymru, Bangor yn enwedig Walter Hanks a hefyd criw y ddeorfa ac i enwi Alan Roberts, Dinas. Mae o eisiau siaced sy'n dal dŵr cyn mynd allan eto! Os oes unrhyw un eisau cael golwg ar be sy'n mynd ymlaen yn Cwawia yna cysylltwch.

A'r pumed a'r anrheg olaf oedd nos Fercher 4ydd Rhagfyr cefais y fraint o fod yn bresenol yng Ngwesty'r Stamford Gate, Treffynnon ble 'roedd lansiad llyfyr newydd Closs 'Sawr atgofus oriau'

Wel dyna chi noson i'w thrysori, gyda aelodau o'r teulu yn rhoi cyflwyniad i rai o'r englynion. Ieuan ap Sion a'i gitâr a threfn ar y noson dan ofalaeth Goronwy Wynne. Llawer i un a'u cydnabyddiaeth yn cynnwys Dr D. Ben Rees. Lerpwl. Felly ffwrdd a chi am eich siop lyfrau agosaf, neu gwell byth cael un o'ch teulu i'w brynu a'i roi yn eich hosan. Da iawn Closs, sydd wrth gwrs yn aelod a chyfarwyddwr brŵd o'r gymdeithas - a un o'r ychydig rai, fel dywedodd Arwel Roberts, Rhuddlan 'sy'n gwybod lle mae pysgod i'w dal ar y llyn'

Wel dyna ni am y flwyddyn, dioch o galon i chwi oll sy'n dangos diddordeb yn y golofn a dymunwn i chwi oll Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Arbennig.

Huw Price Hughes